*Cymuned Rydd nid Marchnad Rydd*

# CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

# Maniffesto

## 1992

*Gweledigaeth y Gymuned Rydd*

# CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

RHAGAIR


| | |
|---|---|
| DATGANIAD CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG | 1 - 11 |
| RHYDDID I DDEFNYDDIO'R IAITH | 12 - 18 |
| ADDYSG AR GYFER CYMUNEDAU RHYDD | 19 - 24 |
| DIWYLLIANT RHYDD | 25 - 29 |
| CYNLLUNIO ECONOMAIDD MEWN CYMUNED RYDD | 30 - 41 |
| GRYM GWLEIDYDDOL I GYMUNEDAU RHYDD | 42 - 45 |
| TAI A CHYNLLUNIO MEWN CYMUNED RYDD | 46 - 50 |
| RHYDDID I'R IFANC | 51 - 54 |
| CASGLIADAU'R MANIFFESTO | 55 |


Cyflwynedig i
**Alun a Branwen**
am ein sbarduno ni oll ar ddechrau'r ddegawd.

# Maniffesto
1992

*RHAGAIR*

*Wrth i Gymru wynebu pum mlynedd arall o Lywodraeth Doriaidd ar ddechrau 1992, ymateb cyntaf Cymdeithas yr Iaith yw cyhoeddi ei maniffesto newydd ar gyfer y nawdegau. Maniffesto sy'n ddatganiad pellach o'n datblygiad gwleidyddol - yn athroniaethol ac ymarferol - yn ystod y ddegawd ddiwethaf.*

*Mae her maniffesto y nawdegau yn fwy nag erioed. Bellach nid ydym yn ymladd am ddyfodol i'r Gymraeg yn unig ond hefyd dros ddyfodol ein cymuedau wrth i Gymru gael ei darnio'n economaidd gan bolisiau'r farchnad rydd. Mae brwydr yr iaith yn gymhlethach nag erioed, ac eto mae'n gosod i ni ddewis syml rhwng brwydro dros dyfodol y Gymraeg a'i chymunedau neu derbyn trefn gwleidyddiaeth y farchnad rydd. Ein gobaith yw y bydd y maniffesto hwn yn gymorth i bawb wneud y penderfyniad.*

*Neges bwysicaf y maniffesto yw'r alwad ar i bawb ymuno a Chymdeithas yr Iaith, i fynnu eu rhan yn nyfodol Cymru a gweld y polisiau yma yn troi yn realiti. Nid oes unrhyw bwrpas cyhoeddi maniffesto oni bai ein bod yn credu fod pobl yn mynd i'w ddarllen, yn mynd i feddwl ac yn mynd i weithredu ar ei gynnwys. Dyna yw deinameg y Gymdeithas:- sef y GALLWN newid Cymru dim ond i ni gael miloedd yn fwy i ymuno i wneud hynny. Yn ystod y ddegawd diwethaf daeth un slogan newydd yn rhan o'n harfogaeth sef 'Rhaid i bopeth newid os yw'r Gymraeg i fyw.' Y frawddeg yma yw'r ynni sy'n rhedeg drwy'r maniffesto, ein hymgyrchoedd a'n mudiad. Bydd yn rhaid i bopeth newid a gennym ni mae'r gallu i wneud hynny.*

*Yn olaf, diolch o galon i BAWB am yr holl waith paratoi sydd wedi bod ar y maniffesto hwn - yn ysgrifennu, teipio, golygu, cysodi a chywiro.*

*Darllenwch, meddyliwch a gweithredwch.*

*Alun Llwyd*
*Cadeirydd*
*Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*

*Hydref 1992*

# DATGANIAD CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG.

Arwydd o nerth a hyder yw bod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cyhoeddi Maniffesto newydd ym 1992. Mae'n arwydd fod ein haelodau'n byrlymu gyda syniadau a chynlluniau newydd i'n harfogi ar gyfer y frwydr dros yr iaith hyd y flwyddyn 2000. Mae'n arwydd ein bod ni'n ysu am y frwydr.

Mae'n arwydd hefyd nad ydym yn sefyll yn ein hunfan fel mudiad.

**Mae sefyllfa'r iaith Gymraeg hefyd wedi newid yn ystod y ddegawd ers i ni gyhoeddi ein Maniffesto diwethaf ym 1982.**




Mae'r sefyllfa wedi newid oherwydd y dirywiad pellach yn ein cymunedau Cymraeg o ganlyniad i'r mewnlifiad enfawr o deuluoedd o Loegr. Ond, mae'r sefyllfa wedi newid hefyd oherwydd yr hyn a enillion ni yn ystod y ddegawd - o ran datblygiad y cyfryngau Cymraeg, datblygiad addysg Gymraeg a strwythurau newydd i reoli addysg yng Nghymru, o ran hyder Cymry ifainc wrth wynebu'r dyfodol, o ran grantiau i gynghorau brynu tai ac yn y blaen. Mae'r sefyllfa wedi newid hefyd oherwydd bodolaeth y llywodraeth Brydeinig fwyaf gelyniaethus erioed i'r holl gysyniad o gymunedau Cymraeg (neu, yn wir, unrhyw gymuned) - Llywodraeth a drechodd frwydr ddewr y Glowyr (ym 1984-85) dros barhad cymunedau; Llywodraeth a danseiliodd sylfaen economaidd cymunedau fel Abernant a Felinfach, Llywodraeth a anogodd bobl ifainc i symud o'u cymunedau; Llywodraeth na faliodd ddim am y di-gartref; Llywodraeth a ddaeth mor unbeniaethol fel na allai oddef i unrhyw fath o gymuned nac undeb na sefydliad fodoli a allent gystadlu a'i grym ei hun. Ac eto, mae'r sefyllfa hefyd wedi newid oherwydd mai'r union lywodraeth hon a orfodwyd gan nerth y mudiad cenedlaethol i ildio consesiynau i'r iaith. Dyma'r llywodraeth a ddechreuodd y ddegawd trwy ildio sianel deledu Gymraeg, ac a'i diweddodd trwy redeg allan o esgusion dros wrthod Deddf Iaith Gynhwysfawr.

Dyma'r llywodraeth a orfodwyd ar ddechrau'r nawdegau i newid ei pholisi ac i gyfarfod a Chymdeithas yr Iaith i drafod pwnc Deddf Eiddo. Ochr yn ochr a'r allfudiad trychinebus o Gymry ifainc o'n cymunedau, gwelwn ddegau o filoedd o Gymry di-Gymraeg yn ceisio dysgu'r iaith.

Yn y darlun cymhleth hwn, sydd yn gymysgwch o flinder a gobaith, credwn ei fod yn holl bwysig i ni fel Cymdeithas ail ddatgan ein ffydd a'n hyder parhaus yn yr iaith a'r diwylliant Cymraeg fel hanfodion i'n bywyd fel cenedl.

**PWRPAS EIN MANIFFESTO - ARFOGI MUDIAD GWEITHREDOL.**

Pwrpas y datganiad hwn yw mynegi'r egwyddorion a'r gwerthoedd sydd yn sylfaenol i'n hathroniaeth a'n gweithredu fel mudiad gwleidyddol. Trwy wneud hyn, rhown gyd destun i'r holl bolisiau amrywiol a gynhwysir yng ngwahanol adrannau'r Maniffesto - cyd destun a fydd yn adlewyrchu ehangder ac aeddfedrwydd gweledigaeth ein haelodau. Ym mhob adran o'r Maniffesto byddwn yn nodi:

i) ein dadansoddiad o'r sefyllfa presennol

ii) ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a

iii) ein camau nesaf tuag at wireddu'r nod.

**HWB I WEITHREDU.**

Gan mai Maniffesto Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yw hwn, mae'r drefn hon yn bwysig i ni. **Mudiad gweithredol yw Cymdeithas yr Iaith**, sy'n gosod targedi realistig ar gyfer yr iaith Gymraeg, ac ar gyfer ei gweithgarwch ei hunan, gan lawn ddisgwyl cyrraedd y targedi hyn. Byddwn yn nodi'r hyn y credwn y gallwn ei gyflawni ein hunain, ac hefyd yr amcanion hynny y gwahoddwn eraill i ymuno gyda ni i ymgyrchu drostynt.
Ni cheir yma felly ymdriniaeth academaidd a'r byd gwleidyddol yng Nghymru, nac ychwaith gynlluniau Iwtopiaidd nas gallem fyth eu gweithredu.

Bydd ein Maniffesto'n hytrach yn bwerdy i'n hymgyrchu gweithredol hyd y flwyddyn 2000.

Bydd ein Datganiad cychwynol wrth geisio lleoli'r frwydr yn natblygiadau diweddar hanes Cymru, a thu fewn i'r frwydr fyd eang dros gyfiawnder, yn hwb i'n haelodau ymgyrchu'n galetach drwy weld llawn werth y frwydr. A bydd corff polisiau'r Maniffesto yn rhoi fframwaith ar gyfer degawd o ymgyrchu gan gymdeithas o bobl sydd wir yn credu ein bod yn gallu newid llwybr hanes Cymru.

**NEWID LLWYR - NID NICHE BACH YN Y DREFN BRYDEINIG.**

A chred sylfaenol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yw na wna unrhyw beth llai na newid llwybr hanes Cymru achub yr iaith Gymraeg. Ailddatganwn "Os yw'r Gymraeg i fyw, rhaid i bopeth arall yng Nghymru newid", a hybwn y newidiadau radicalaidd hyn o hyd, a'u gweld yn gliriach. Dyna sy'n ein gwahaniaethu ni oddiwrth y "cenedlaetholwyr diwylliannol" hynny sydd yn credu ei bod yn bosibl cerfio niche i'r Gymraeg tu fewn i'r drefn bresennol. Mae'r Llywodraeth Brydeinig yn barod i gydweithio gyda'r cenedlaetholwyr diwylliannol hyn er mwyn cyfyngu ar y mudiad cenedlaethol. Fe geisia ar adegau hyd yn oed wthio Cymdeithas yr Iaith i'r cyfeiriad hwn. Ond yr ydym ni'n gwrthod y strategaeth hon yn llwyr, gan ein bod ni am weld y Gymraeg yn parhau'n eiddo i gymunedau cyfan, a'n dadl ni yw fod yr holl drefn yr ydym yn byw ynddi'n milwrio'n erbyn yr iaith a chymunedau Cymru, a bod angen felly newid llwybr ein hanes.
Mae pob rheswm yn dweud mai marw a wna'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw tu fewn i'r drefn bresennol. Y mae trefn "Rhyddid y Farchnad" yn golygu rhyddid i'r grymoedd economaidd mwyaf - o ran corfforaethau amlwladol, y

gwladwriaethau mwyaf a'r diwylliannau mwyaf - i ymelwa ar y bobloedd, carfannau a'r diwylliannau lleiaf.

Ffaith wrthrychol syml a di-ymwad yw fod y Cymry a'r Gymraeg ymhlith y bobloedd a'r diwylliannau "gwanaf" mewn termau cydwladol. Nid oes iddynt rym gwleidyddol nac economaidd a phrin yw nifer y siaradwyr.

Nid oes unrhyw swyddogaeth wrthrychol sylfaenol i'r iaith Gymraeg mewn trefn marchnad rydd o'r fath. Cyfyngir y Gymraeg i gylchoedd a sefydliadau arbennig ac fel atyniad twristaidd.

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gwrthwynebu'r cydweithio (anfwriadol efallai?) rhwng y Llywodraeth a "chenedlaetholwyr diwylliannol" i greu niche bach i'r Gymraeg yn y drefn bresennol trwy roi hawliau unigol i'r Cymry ymwybodol arfer yr iaith, trwy greu ychydig o gwangos Cymraeg a thrwy bwyntio at lwyddiant rhai sefydliadau Cymraeg gan wneud y datganiad twyllodrus fod dyfodol y Gymraeg bellach yn ddiogel.

Byddai'n hawdd iawn i bobl felly eu twyllo eu hunain ynglyn â dyfodol yr iaith. Gyda dirywiad yn y cymunedau naturiol Gymraeg, byddai'r siaradwyr ymwybodol Gymraeg yn eu plith yn dyheu'n fwy fwy am gyfarfodydd mudiadau Cymraeg, yn dyheu am lwyddiant yr Eisteddfod yn flynyddol, yn gweld pwysigrwydd mwy yn S4C, ac yn dod yn fwy ymwybodol o ran eu hawliau unigol i arfer yr iaith. Yn eironig iawn, gallai'r "bychanfyd" Cymraeg hwn ffynnu i'r un graddau y mae cymunedau naturiol Gymraeg yn dirywio. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gwrthod dyfodol felly i'r Gymraeg. Yn hytrach, yr ydym o blaid creu trefn o ryddhau cymunedau Cymreig i greu eu dyfodol eu hunain y bydd i'r iaith ran naturiol ynddo.

**SYMBOL O RYDDID MEWN BYD CAETH.**

Felly nid yw ein gwaith yn ddim llai nac ymgais i newid llwybr hanes Cymru. Yr ydym yn fwy ymwybodol erbyn hyn mor anodd fydd cyflawni hyn heb newidiadau sylfaenol mewn materion cydwladol sydd yn effeithio'n drwm ar Gymru.

Bydd y Maniffesto hwn yn llawer mwy allblyg na'n rhai blaenorol. 'Does gyda ni mo'r amser i ddisgwyl am newidiadau cydwladol ffafriol. Yn lle hynny, yr ydym yn ddigon hyderus i gredu ein bod ni'n gallu cyfrannu at hybu newidiadau ehangach trwy gynnig ein syniadau ni o Gymru.

Gall Cymru y nawdegau roi arweiniad yn y byd, lle bu'n dilyn yn swil o hirbell yn y gorffennol. Gwelwn y Gymraeg yn sumbol o ryddid a newid er gwell mewn byd sydd yn llawn symbolau caethiwed a gormes a gall y sefyllfa'n gydwladol felly fod yn aeddfetach am newidiadau nag a dybiwyd. Mae diwedd y Rhyfel Oer yn galw ar syniadau newydd yn y Gorllewin yn ogystal a'r Dwyrain, ac yn cynyddu'r posibiliadau o newid sylfaenol, lle bu rhewi ar syniadau a chyfundrefnau o dan yr hen drefn.

## EDRYCH YN OL - BETH A GYFLAWNWYD YN YR WYTHDEGAU?

Yn y Maniffesto, felly, byddwn yn edrych o'r newydd ar Gymru a byd newydd gydag anghenion newydd. Nid atodiad i'r Maniffesto diwethaf fydd hwn, ond golwg o'r newydd, gyda hyder newydd, ac yn gais i ddiffinio'r un egwyddorion mewn cyd-destun newydd. Ond, er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni ystyried profiad Cymdeithas yr Iaith yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Pa mor lwyddiannus fuon ni yn ystod yr wythdegau?

**Strategaeth ddeuol fu gyda ni yn yr wythdegau**. Diffinwyd ein brwydr mewn dwy ran yn y Maniffesto diwethaf sef:

i) Ymgyrchoedd yn ymwneud a **statws yr iaith**, lle gallem ni weithredu fel mudiad iaith ymosodol a chyflawni llawer trwy ein hymdrechion ein hunain. Tu fewn i'r swyddogaeth draddodiadol hon, fe gyflawnwyd llawer dros y ddegawd ddiwethaf e.e. Gorfodwyd y Llywodraeth i gyflwyno cynigion am Ddeddf Iaith Newydd, ac i sefydlu Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg a sefydliadau addysgol eraill yng Nghymru.

ii) Ond, 'roedd ymwybyddiaeth gynyddol ym Maniffesto 1982 fod tynged yr iaith Gymraeg yn dibynnu fwyfwy ar barhad cymunedau Cymreig a bod angen datblygu set gyflawn o bolisiau i amddiffyn bywyd cymunedol yng Nghymru. Datblygwyd a chrynhowyd y syniadau hyn yn "Cymdeithasiaeth - Yr Ail Ffrynt?".

Ond cydnabyddwyd na ellid cyflawni hyn oll trwy ein hymdrechion ein hunain yn unig, a galwyd am **sefydlu Ffrynt Radicalaidd** yng Nghymru i bwyso am y newidiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a fyddai'n rhoi sylfaen i fywyd cymunedol iach. Rhaid cydnabod na lwyddwyd i sefydlu'n ffurfiol unrhyw ffrynt o fudiadau radicalaidd yng Nghymru. Daeth cyfle enfawr yn y gwrthdrawiad gwerthoedd rhyngom a'r Llywodraeth a grynhowyd ym Mrwydr Streic y Glowyr. Ond rhwystrwyd datblygiad ffrynt radicalaidd gan elfennau adweithiol y Chwith yng Nghymru. Am y tro, trechwyd y gynghrair radicalaidd o fudiadau a alwodd, gyda'r glowyr, am roi dyfodol cymunedau'n gyntaf wrth gynllunio'r economi. I'r gwrthwyneb, aeth y Toriaid ymlaen i danseilio bywyd cymunedau Cymreig trwy gau gweithfeydd allweddol a thrwy hybu polisiau marchnad "rydd" o breifateiddio a thrin asedau cymunedol fel nwyddau masnachol. Yng nghanol yr wythdegau, ymdebygodd Cymru i ocsiwn mawr - gwerthwyd ei thai, ei thir, ei siopau a'i gwasanaethau. Dinistrwyd llawer o sylfeini economaidd cymunedau lleol. Bu allfudiad mawr o Gymry Ifainc a mewnlifiad cyfatebol o Saeson o ardaloedd incwm uwch.

Ailddatganwn werthoedd Maniffesto 1982 a grynhowyd dan y deitl **"Cymdeithasiaeth"** - sef mai diogelu a datblygu bywyd cymunedol ddylai fod un o brif amcanion polisiau cynllunio, tai ac economaidd, ac mai dim ond mewn trefn felly y bydd byw'r Gymraeg. A chyflawnodd Cymdeithas yr Iaith lawer yn y meysydd hyn. Gwnaethpwyd dyfodol y Gymraeg yn bwnc cynllunio. Llwyddwyd i gael

Llywodraeth i gydnabod yr egwyddor o ryddhau arian i Awdurdodau Lleol brynu tai, er bod yr adnoddau yn bitw.

Ac yn bennaf oll, lluniwyd pecyn o bolisiau -"Deddf Eiddo" i sicrhau rheolaeth gymunedol dros y farchnad dai a'r gwasanaethau a chynyddu'n ddirfawr felly reolaeth cymunedau dros eu tynged eu hunain. Trwy ymgyrchu caled llwyddwyd i roi "Deddf Eiddo" ar yr agenda wleidyddol. Ond tueddwyd i gyflawni cymaint a hyn trwy hen ddulliau'r mudiad iaith.

Erys yr un amheuaeth a allwn gyflawni trawsnewidiad sylfaenol ar ein pennau'n hun trwy'r dulliau hyn. Ond, os ydym am ffurfio ffrynt radicalaidd, wedyn o ble daw elfennau'r ffrynt hwn? Mae 3 set o bosibiliadau:-

a) Sefydliadau cyfansoddiadol e.e. Llwyddwyd i gynnull ynghyd llawer o Awdurdodau Lleol i bwyso ar y Swyddfa Gymreig am yr hawl i brynu tai. Radicaleiddwyd awdurdodau lleol a chynllunio o ran eu polisiau, ond maent yn amharod i herio'r Llywodraeth o ran gwrthod cydweithredu.

b) Mudiadau Radicalaidd eraill - ond bod llawer o'r rhain wedi gwangaloni yn dilyn degawd o Thatcheriaeth.

c) Carfannau o bobl mewn angen e.e. y digartref, y diwaith. Ond y mae'r rhain wedi'u hynysu a'u dieithrio gan y Sefydliad a'u gadael heb lais gwleidyddol a'u hannog i ymfudo.

Os oes anhawster o ran darganfod aelodau potensial Ffrynt Radicalaidd yng Nghymru wedyn, mae problem mwy sylfaenol fyth ynghylch ei raison d'etre.

Wrth i ni hybu polisiau "Cymdeithasiaeth" ym Maniffesto 1982 dywedasom fod hyn yn ein gosod ni yn y gwersyll "Sosialaidd" o fudiadau. Wrth geisio adeiladu felly unrhyw symudiad dros reolaeth gymunedol rhaid wynebu'r pwnc gwleidyddol mawr cyfoes o "fuddugoliaeth" y "Farchnad Rydd" dros sosialaeth.

## CWYMP SOSIALAETH A CHONCWEST Y FARCHNAD?

Yn ystod yr wythdegau, bu grymoedd y dde yn ceisio herwgipio'r cysyniad o ryddid trwy asio wrth gyfalafiaeth. Twyllwyd pobl, a fu tan ormes gwladwriaethau canoledig, i gredu fod eu "rhyddid" ynghlwm wrth beirianwaith hudol y Farchnad "Rydd" i ddatrys eu holl broblemau. Trwy fwrw i lawr pob rhwystr (neu amddiffynfa - yn dibynnu ar eich safbwynt), cymdeithasol, cliriwyd ffordd i'r ychydig gael cyfle i ymelwa, gan adael breuddwyd i'r mwyafrif.

Uniaethwyd "Sosialaeth" yn meddyliau'r mwyafrif gyda rheolaeth amhersonol gan Awdurdodau canoledig. Bu chwyldro trwy lawer o'r byd dros "ryddid" y Farchnad (sef yr union rymoedd rheibus sy'n lladd cymunedau Cymraeg.) Cychwynwyd gyda symudiad i'r De yn y Gorllewin. Aeth byddinoedd cyllidol y Gorllewin ymlaen i oresgyn Dwyrain Ewrop, a defnyddiwyd cymysgwch o fygythiadau yr I.M.F. a "gun-boat diplomacy" i sicrhau nad oedd neb yn y byd datblygol yn cwestiynu y fersiwn swyddogol o "Ryddid". Yng Nghymru rhoddwyd y golau gwyrdd i hapfasnachwyr ecsbloitio'r farchnad dai a thir, tanseilwyd sylfeini economaidd lleol, diwreiddwyd pobloedd, tanseiliwyd awdurdodau lleol, Undebau ac eraill a allai gynnig

gwrthwynebiad, anogwyd sefydliadau lleol mewn addysg ac iechyd i dynnu allan o reolaeth gymunedol a bu pwyslais athronyddol ar drin pawb fel unigolion a defnyddwyr yn hytrach nac fel aelodau o gymunedau.

Trwy wneud hyn, a lladd ar yr holl syniad o gymuned, gallai'r wladwriaeth reoli pobl yn haws a gwnaethpwyd bywyd corfforaethau mawr yn haws.

Ar lefel wleidyddol, rheolid Cymru ar batrwm trefedigaethol glasurol gyda Llywodraeth yn y Swyddfa Gymreig yn penodi mwyfwy o "bobl busnes" a "brodorion ufudd" ar gwangos i reoli'r wlad gyda'r prif nod o glirio pob rhwystr a allai atal cynnydd grymoedd y "Farchnad Rydd."

Ar lefel ddiwylliannol, bu ymdrech llawn dychymyg i brynu teyrngarwch y dosbarth proffesiynol Cymraeg i drefn newydd y Farchnad gan roi iddynt hunanlywodraeth ddiwylliannol ar eu cwangos eu hunain gan rheoli'u cyllid bach ei hunain gan geisio ynysu "brodorion drwg Cymdeithas yr Iaith".

Mae'r drefn hon o addoli grymoedd y Farchnad, gan ddibynnu ar friwsion o fyrddau Corfforaethau a'r Wladwriaeth, yn gwbl groes i raglen waith "Cymdeithasiaeth" sy'n gosod y prif werth gwleidyddol ar y gymuned. Ni all yr iaith na chymunedau Cymraeg barhau mewn trefn o fath.

**BRWYDRO'N OL.**

Ac eto:

*Nid yw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi cael ei hynysu.

*Yng nghanol y "lli gwrthwynebus" hwn, ar adeg lansio'r Maniffesto newydd, mae gan Cymdeithas yr Iaith fwy o aelodau nag erioed o'r blaen, a chefnogaeth dorfol ar lefel na fu gennym ers dwy ddegawd.

*Mae gyda ni ddatblygiad polisiau soffistigedig fel "Deddf Eiddo" i gwrdd a'r argyfwng. Mae'r mudiad yn ddigon bywiog i gynnig syniadaeth newydd fel "Rhyddid i'r Ifainc".

*Mewn gair mae Cymdeithas yr Iaith, yn wahanol i fudiadau radicalaidd eraill yn Ewrop, mewn sefyllfa gref ac ysbryd hyderus ac yn awchu am y frwydr. Mae hyn oherwydd fod ein raison d'etre - amddiffyn ein hunaniaeth a'n cymunedau- yn rhywbeth sylfaenol nad sy'n newid gyda thueddiadau gwleidyddol. Mae gyda ni sylfaen gadarnach felly nag sydd gan fudiadau radicalaidd eraill.

**DATGUDDIO'R TWYLL.**

Rhan o waith Cymdeithas yr Iaith fydd, trwy ei gweithgarwch, dadlennu'r twyll am "ryddid" y farchnad, ac mae arwyddion clir fod pobl Cymru'n dod i weld y gwirionedd o'u cwmpas - fod ein tai a'n cartrefi'n cael eu colli, fod Cymry ifanc yn gorfod symud allan, ac nad ydym yn rhydd i ddefnyddio'r iaith ym mhob rhan o'n bywyd. Cyn hir daw pobloedd Dwyrain Ewrop i weld y twyll - fod y Farchnad yn cynnig rhyddid i'r ychydig yn unig. Ac ni ellir cadw'r byd datblygol yn y De'n gaeth am fyth.

Mae cyfalafiaeth y Gorllewin wedi parhau trwy gorffori'r rhan fwyaf o'n pobloedd bellach yn y dosbarth canol, gan allforio'r llafur proletaraidd i'r byd datblygol a chan eu gorfodi i gydymffyrfio trwy rym arian ac arfau.

Ni fydd y byd datblygol yn derbyn hyn am byth, fel na fu dosbarth gweithiol Ewrop yn fodlon derbyn hyn. Yn union fel yr oedd Comiwnyddiaeth (seiliedig ar reolaeth ganoledig) yn tanseilio rhyddid cymunedol, felly hefyd y mae'r Farchnad yn dinistrio rhyddid cymunedau, a'n rhyddid i fyw mewn cymuned, gan dynnu i ffwrdd ein hunaniaeth.

Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y daw'r gogwydd yn ol yn y nawdegau at werthoedd dynol gyda phwyslais ar gymuned ac y daw cymunedau i fynnu mwy o reolaeth ar eu tynged. Mae'r Gymdeithas yn ddigon hyderus i fod ar flaen y symudiad Ewropiaidd hwn yn ol ac ar flaen y broses o ail ddiffinio sosialaeth ac ail ffurfio rhengoedd radicalaidd drwy gynnig y syniadaeth o ryddid gymunedol fel alternatif byw i Ryddid y Farchnad neu i Fiwrocratiaeth Ganoledig. Credwn y bydd ein brwydr ni reit yng nghanol y wleidyddiaeth newydd - **Gwleidyddiaeth Gobaith** . Yng Nghymru hithau cred Cymdeithas yr Iaith y daw ein pobl, fel pobloedd eraill y byd, i fynnu democratiaeth a'r gallu ymarferol i lunio'n dyfodol ein hunain ar bob lefel, gan gychwyn yn y gymuned. Dyma eto'r unig alternatif i reolaeth hyll y Farchnad a'r Cwangos.

Boed trwy Ffrynt Radicalaidd ffurfiol neu drwy ymlediad organig gweithgarwch radicalaidd, credwn y bydd cynnydd anochel i weithredu dros "ryddid cymunedol" gan ei fod yn cyd-fynd a'r dyheadau dynol sylfaenol am ryddid a brawdgarwch a bod y rhain yn deimladau a allai gystadlu gyda'r hunanoldeb a'r awydd i drechu eraill yn y natur dynol y mae pleidwyr y Farchnad Rydd yn seilio eu hapel arnynt.

## EDRYCH YMLAEN - SWYDDOGAETH A NOD CYMDEITHAS YR IAITH HYD 2000.

Yn seiliedig ar eu dadansoddiad o'r sefyllfa ac o anghenion y Gymraeg gwel Cymdeithas yr Iaith swyddogaeth glir iawn iddi'i hun yn brwydro dros ryddid i gymunedau Cymru fel bod lle i'r Gymraeg fyw. Brwydrwn dros ryddid i'n pobl gael byw mewn cymuned gyda chartrefi a rhoddion bywoliaeth a rhyddid cymunedol i gynllunio i'r dyfodol, dros drefn addysg gymunedol Gymreig ac yn byw yn ol eu diwylliant eu hunain, gyda rhyddid i ddefnyddio'r iaith ym mhob rhan o fywyd. Brwydrwn dros ryddid i'r Cymro di-Gymraeg ac i bawb o ewyllys da sydd yn ymuno a ni yng Nghymru, gael dysgu'r iaith a rhannu'n llawn y rhyddid cymunedol hwn. **Gwelwn grisialu a chaledu ar ein swyddogaeth** fel mudiad wrth i ni ystyried grym y Farchnad a Cheidwadaeth sydd yn bygwth ein pobl. Gwynebwn ein pobl yn y Maniffesto hwn gyda'r dewis clir rhwng:

**GWLEIDYDDIAETH Y FARCHNAD RYDD.**

-gyda'i ffug ryddid i'r ychydig, ac a olyga dranc i'r iaith a chymunedau Cymru.

NEU

**GWLEIDYDDIAETH Y GYMUNED RYDD**

-a olyga ryddid i'n pobl ddatblygu eu llawn botensial a hynny gyda'i gilydd a chyfle i'r Gymraeg ddatblygu fel cyfrwng cymunedol.

Mae gwir ryddid mewn cymundeb gyda'n gilydd, hyn sydd yn rhyddhau ein potensial fel pobl ac yn sylfaen i'n

diwylliant ac nid mewn unigolyddiaeth.

**Y DEWIS HWN** yw prif nod ein Maniffesto ac yn crynhoi'n gweledigaeth. Ein cryfder yw fod yr ymwybyddiaeth hon wedi datblygu'n naturiol tu fewn i Gymdeithas yr Iaith a hynny trwy brofiad ymgyrchu. Mae pob ymgyrch wedi'u harwain ni'n ol at y dewis rhwng derbyn trefn y Farchnad Rydd neu frwydro dros Gymuned Rydd.

e.e. **DEDDF IAITH** - y dewis clir rhwng Deddf a rydd hawliau unigolyddol i'r ychydig neu fynnu Deddf a rydd ryddid i gymunedau cyfan dderbyn pob gohebiaeth swyddogol yn Gymraeg ac i ddefnyddio'r iaith fel cyfrwng cymunedol.

e.e. **ADDYSG** - y dewis clir rhwng derbyn trefn addysg sydd yn paratoi pobl ifainc ar gyfer anghenion y Farchnad drwy gystadlu gyda'i gilydd, neu fynnu reolaeth gymunedol dros addysg sy'n arfogi pobl ifanc gyda'r sgiliau i greu eu dyfodol eu hunain.

e.e. **RHYDDID I'R IFAINC** - y dewis rhwng derbyn mae adnoddau i'w hecsploitio gan y Farchnad yw Cymry ifanc, neu eu gweld fel y genhedlaeth olaf all ddiogelu cymunedau naturiol Gymreig, o gael y grym gwleidyddol.

e.e. **DEDDF EIDDO** - y dewis rhwng derbyn mai'r unig gynllunio yw clirio rhwystrau i hapfasnachwyr wneud elw sylweddol o werthu tai, tir a gwasanaethau Cymru neu fynnu fod rhyddid ymarferol gan y gymuned i lunio'i dyfodol ei hun.

e.e. **ECONOMI** - y dewis rhwng derbyn fod pobl Cymru yno i wasanaethu anghenion y Farchnad fel gwerthwyr a defnyddwyr, neu fynnu chwilio am ddulliau o roi rhyddid i gymunedau geisio adeiladu sylfaen economaidd.

**SYNTHESIS NEWYDD- BRWYDR DROS GYMUNEDAU RHYDD CYMRAEG.**

**Yr un llinyn hwn fydd yn rhedeg trwy'r Maniffesto**, gan fod pob ymgyrch wedi'n gyrru ni i'r cyfeiriad hwn. Dim ond wrth greu trefn newydd o'r fath yng Nghymru y bydd lle naturiol i'r iaith Gymraeg. Ac wrth ymgyrchu dros yr iaith Gymraeg, yr ydym yn hybu'r frwydr dros ryddid gymunedol - a dyma **ddatblygiad athronyddol mawr y Gymdeithas ers y Maniffesto diwethaf.** Mae profiad ein hymgyrchu wedi'n harwain ni i beidio siarad am ddwy frwydr fawr gyfochrog o
a)Mudiad iaith ymosodol a (b) trawsnewidiad cymdeithasol i roi sylfaen gymunedol i'r iaith. Yn awr, gwelwn y cyfan wedi eu hasio ynghyd yn un frwydr fawr dros ryddid gymunedol. Mae'r gallu i ddefnyddio'r iaith ym mhob rhan o fywyd yn gymaint mynegiant o'r rhyddid hwnnw ag ydyw'r hawl i gael cartref neu waith yn y gymuned ac y mae'r hawl i gael addysg Gymraeg yn rhan o frwydr y gymuned am reolaeth dros ei threfn addysg ei hun.

Efallai na ddaw ffrynt ffurfiol o fudiadau radicalaidd fel ag a ddisgwylid yn ein Maniffesto diwethaf. Ond credwn y daw'r pendil yn ol at ryddid cymunedol ac am ein bod ni'n fudiad blaengar yn y frwydr hon, efallai y bydd ein gweithgarwch yn wreichionyn i dân llawer helaethach a datblygiad ffrynt eang o weithredu dros ryddid cymunedol.

Nid yw ein brwydr yn ddim llai na chreu democratiaeth yng Nghymru - yn lle pleidlais bob pedair blynedd a rheolaeth y Farchnad. Dyma'r wleidyddiaeth a'r rhaglen waith a osodwn allan yn y Maniffesto hwn. Mae mwy o frwdfrydedd nag erioed gan ein haelodau i weithredu ar yr argymhellion oherwydd ein bod yn ymwybodol mai ein haelodau ifainc yw'r genhedlaeth olaf gyda chyfle i sicrhau dyfodol i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, ac oherwydd eu sylweddoliad fod ein brwydr dros ryddid gymunedol yn rhan o frwydr fyd-eang dros gyfiawnder.

## PARTNERIAETH.

Erys un cwestiwn. Hyd yn oed os credwn ein bod yn gallu herio grymoedd y Farchnad, a ydyw'r holl gysyniad o "gymuned rydd" yn gredadwy mewn byd modern o drefniadaeth ar lefel cydwladol? A ellir creu ynysoedd bach? Nid dyna'n hachos ni. Daw'r allwedd i'n rhyddid mewn partneriaeth. Mae yna wasanaethau y gellir eu trefnu orau ar lefel cenedlaethol Cymreig, ar lefel Brydeinig neu ar lefel Ewropeaidd.

Ond mynnwn fod y pwyslais ar wasanaeth nid rheolaeth o'r canol. Yr egwyddor yw fod cymunedau'n dirprwyo'r galluoedd i fyny.
Ar y sail hon, yr ydym yn ffafrio graddfa lawer fwy o gydgysylltu ar raddfa gydwladol er mwyn rhyddhau cymunedau i drefnu'r hyn sydd o fewn eu gallu i'w drefnu.

Ein cynigion ni yw'r unig alternatif i fonolith fiwrocrataidd Ewropeaidd sydd yn rheoli'r cyfan o'r canol ac yn gwasanaethu corfforaethau amlwladol. Credwn y gellir hel chwith newydd yn Ewrop o gwmpas y syniad o ryddid cymunedol.

## EIN GWELEDIGAETH O GYMUNEDAU CYMRU.

Pa set o werthoedd felly a grynhoir yn ein gweledigaeth o gymunedau Cymru?

- Anelwn at gymunedau rhydd a Chymraeg, gyda'r gallu ymarferol i lunio'r dyfodol.

- Credwn mai mewn cymuned y mae unigolion yn datblygu eu rhyddid a'u llawn botensial. Gwrthwynebwn y fersiwn Doriaidd o ryddid yr unigolyn a olyga arwahanrwydd unigolion cystadleuol mewn cymdeithas sydd yn gynyddol amhersonol ac hunanol.

- Anelir pob polisi at ryddhau a rhoi cyfrifoldeb yn lle creu dibyniaeth.

- Gwelir gwerth mewn partneriaeth a gwasanaeth.

- Mae'n rhaid bod y rhyddid hwn ar gael i bawb a bod ysbryd rhyddfrydig yn y cymunedau.

Gwrthwynebwn yn llwyr ragfarn a gorthrwm yn erbyn carfannau fel merched, lleiafrifoedd ethnig, hoywon a lesbiaid, pobl sydd yn byw ar nawdd gymdeithasol, yr anabl ac ati. Pasiwyd nifer o gynigion yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas yn mynnu fod rhyddid cymunedol ar gael i bawb.

Yn ein polisiau ac yn ein gweithredoedd, gobeithiwn y gallwn ni orseddu gwerthoedd cydweithio yn lle cystadleuaeth, a heddwch yn lle trais.

## MUDIAD DI-DRAIS.

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn fudiad di-drais nid oherwydd ymatal o ran tacteg gwleidyddol ond oherwydd mai hyn yw un o hanfodion holl ddeinameg y mudiad. Ein nodwedd unigryw fel mudiad Cymreig yw bod yn weithredol ddi drais. Hanfod y dull di-drais yw ein bod ni fel unigolion yn cael ein rhyddhau o ofnau, dicter a dadrith, ac yn ceisio nerth a sylweddoli llawn botensial ein posibiliadau mewn cymuned a gweithredu gyda'n gilydd h.y. dylai fod yn feicrocosm o'r cymunedau y ceisiwn eu creu yng Nghymru. Yn ol yr ysbryd di-drais, mae'r prif gyfle gyda ni a'r prif gyfrifoldeb felly arnom ni a derbyniwn y cyfrifoldeb heb feio pobl eraill. Mae pob methiant yn ein hannog i geisio'n galetach a phob buddugoliaeth yn ein calonogi ond yn bennaf oll mae cyfiawnder y frwydr ei hun yn ddigon o reswm dros gymryd rhan.

Mae'r Gymdeithas yn syrthio'n brin o'r delfrydau'n aml iawn - fel arfer oherwydd yr hyn y mae'n esgeuluso'i wneud (h.y. ddim digon gweithredol) yn hytrach nag o ran yr hyn mae yn ei wneud, ond mae bodolaeth y deinameg di-drais fel pwerdy yn ein gyrru ymlaen beth bynnag fo'r amgylchiadau. Mae hwn yn beiriant grymus yn wir, ac yn rheswm dros gymeradwyo Cymdeithas yr Iaith i aelodau newydd. Ceisiwn fod yn fudiad cyfrifol - gan gadw'n cysylltiad rhwng syniad, trafodaeth, penderfyniad, a gweithred mor agos ag sydd bosibl. Ceisiwn fod yn gyfrwng mor hyblyg a rhwydd a phosibl i'r aelodaeth gyfrannu o ba oed neu gefndir bynnag. Rhaid datblygu dulliau sydd yn rhoi cyfle i bawb ymuno yn y frwydr dros ryddid cymunedol. Rhaid i'r dulliau adlewyrchu cyfiawnder y nod. Y dulliau yw amlygiad gweledol y nod fydd yn cyfrannu at ffurfio'r nod.



## CASGLIADAU.

Yn yr ysbryd di-drais hwn, gallwn gasglu y bydd graddfa'r llwyddiant i wireddu'n polisiau'n dibynnu'n fwyaf ar ein hymrwymiad ni ein hunain, ac ar ymrwymiad eraill y gallwn ni eu sbarduno i weithredu. Os trwy ein bywydau a'n gweithredoedd yr ydym yn ategu'r geiriau yn y Maniffesto, wedyn fe gyflawnwn lawer iawn. Ein braint yw bod yng nghanol brwydr gyfan dros ryddid i'n cenedl ac i'n cymunedau. I'r graddau yr ydym yn wir gredu yn y nerth potensial sydd gyda ni, fe gyflawnwn ni fwy eto. Brwydr oes sydd gyda ni. Ni fyddwn byth yn cyrraedd stad Iwtopaidd lle gallwn ni ddweud ein bod wedi ennill ac nid ydym mor haerllug nes honni ein bod yn deall y gwirionedd i gyd ar sut le fyddai'r Iwtopia hwnnw. Ond byddwn yn symud yn gyson ar hyd y ffordd tuag at ryddid cymunedol a down i ddeall yn fwyfwy mai ein buddugoliaeth yw bod ar y ffordd yn lle gwastraffu amser mewn rhyw lecyn tawel cyffforddus.

Cyflwynwn y Maniffesto felly

a) i'n haelodau a'n cefnogwyr ein hunain er mwyn hybu gweithgarwch
b) i fudiadau radicalaidd eraill yng Nghymru a thu allan er mwyn datgan ein cynigion ac fel sylfaen i drafodaeth ar gydweithio, ac

c) i bobl Cymru, gan eu hwynebu gyda'r dewis syml.

Yn bennaf oll, cyhoeddwn y Maniffesto oherwydd bod gyda ni rywbeth gwerth ei ddweud. Mynnwn yr hawl heddiw i ddehongli'r sefyllfa fel y'i gwelwn a disgwyliwn aelodaeth fwy i wneud yr un fath ymhen amser. Yn wir ein huchelgais yw y bydd aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn y flwyddyn 2000 yn gweld y cyhoeddiad hwn yn hen ffasiwn - byddai hwnnw'n arwydd clir ein bod wedi symud yn bell i lawr y ffordd tuag at ryddid cymunedol.



## RHYDDID I DDEFNYDDIO'R IAITH.

### CEFNDIR.

Ym mis Chwefror 1962 traddododd Saunders Lewis ei ddarlith radio Tynged yr Iaith a galwodd am yr angen i'w "gwneud hi'n amhosibl dirwyn ymlaen fusnes llywodraeth leol na busnes llywodraeth ganol heb y Gymraeg." Canmolodd hefyd y frwydr a ymladdodd Trefor ac Eileen Beasley i sicrhau bod Cyngor Dosbarth Gwledig Llanelli yn darparu papur treth yn Gymraeg. Symbylwyd criw o bobl i ddod ynghyd ac ym mis Hydref y flwyddyn honno sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cafwyd enghreifftiau o amryw o unigolion a ddilynodd yr un dynged a theulu'r Beasleys wrth iddynt ymgyrchu am ddogfennau unigol wedi eu darparu yn Gymraeg gan lywodraeth leol a chanol, y cyrff statudol a chyhoeddus. Roedd statws swyddogol i'r iaith yn fater sylfaenol bwysig. Ym mlynyddoedd cynnar ei bodolaeth ymgyrchu ar faterion statws cyhoeddus yn unig oedd waith y Gymdeithas.

Roedd angen hynny, am fod diffyg statws yn arwain at sefyllfa o is-raddoldeb a gwaseidd-dra. Er gwaethaf bob ymdrech gan wladgarwyr a chenedlaetholwyr i ddiogelu'r iaith ar hyd y canrifoedd mewn meysydd gwahanol fel diwylliant, addysg a chyhoeddiadau, roedd hyn i gyd yn ofer am nad oedd gan y Gymraeg statws gyfreithiol swyddogol yn sylfaen i'r holl ymdrechion.

### DECHRAU'R YMGYRCH.

Pwyso am wys llys Gymraeg oedd gweithred gyntaf y Gymdeithas. Nid yw'r ymgyrch honno wedi ei hennill hyd heddiw. Yn ddiweddarach ymgyrchwyd i gael gwrandawiadau llys Cymraeg. Cyn ymgyrchu am y Bedwaredd Sianel cafwyd ymgyrch i gael trwyddedau teledu yn Gymraeg.

Un canlyniad i'r cyfan oedd i'r Llywodraeth gyflwyno ym 1967 (pum mlynedd ar ol sefydlu'r Gymdeithas) Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Deddf wan yw honno wedi ei seilio ar ddilysrwydd cyfartal i'r iaith. Er bodolaeth y Ddeddf bu'r Gymdeithas drwy'r 70au yn gwario llawer o amser yn ymladd dros statws i'r iaith mewn amrywiol feysydd megis arwyddion ffyrdd, taflenni, ffurflenni a phosteri o eiddo llywodraeth leol a chanol, cyhoeddiadau amrywiol gan gyrff statudol a chyhoeddus megis Swyddfeydd Post, banciau, cymdeithasau adeiladu a deunydd gan gwmniau masnachol, asiantaethau a chyrff di-ri. Mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd. Llwyddwyd i gael ambell ffurflen ac ychydig o arwyddion ond yn fwy aml na dim consesiynau bach oedd rhain i gyd gan roi dim byd mwy na statws ymylol yn unig i'r Gymraeg. Yn aml nid yw'r fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni ar gael neu maent yn eilradd o ran diwyg. Wrth iddynt cael eu cadw o dan y cownter yn ddigon pell o olwg y cyhoedd byddai'n rhaid gwneud cais penodol amdanynt. Nid oes unrhyw elfen o reidrwydd ar neb i ddarparu'r fersiynnau Cymraeg er bod Deddf '67 wedi roi statws o ran enw i'r iaith.

Drwy gydol y '70au bu llusgo traed gan wahanol adrannau o'r Llywodraeth wrth geisio gwireddu

ysbryd Deddf '67, ond syrthio yn fyr rhag llwyddo i wneud hynny wnaethant.

## ARWYDDION FFYRDD.

Ym 1972 cyhoeddwyd adroddiad Bowen oedd yn ymwneud a lle'r Gymraeg ar arwyddion ffyrdd. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach ym 1982 roedd y Gymdeithas yn dweud yn ei Maniffesto bod arwyddion ffyrdd yng Nghymru yn dal naill ai yn uniaith Saesneg neu yn rhoi blaenoriaeth i'r Saesneg. Ym 1992 mae enghreifftiau o'r fath yn dal gyda ni.

Ym 1975 cyhoeddodd y Swyddfa Bost ddatganiad o bolisi lle roedd dwyieithrwydd yn "norm" mewn cyhoeddiadau a gweinyddiaeth. Er i'r Gymdeithas ddatgan ar y pryd bod hyn yn lwyddiant wrth i gorff cyhoeddus fel y Bwrdd Post osod y Gymraeg yn ran hanfodol o'i gweinyddiaeth, yn anffodus mae gweithrediad y polisi yn amrywio o le i le gydag ymgyrchu yn parhau am ddarpariaeth ddwyieithog lawn.

## DEDDF IAITH.

Yn y Maniffesto ym 1982 galwyd am Ddeddf Iaith Newydd. Deddf gynhwysfawr gyflawn a fydd yn rhyddhau ac ehangu defnydd o'r iaith Gymraeg. Deddf fydd yn seiliedig ar yr egwyddor canolog o ddwyieithrwydd naturiol cymunedol.

Ers lansio'r ymgyrch mae'r Llywodraeth wedi gwneud popeth i rwystro sefydlu Deddf o'r fath. Drwy'r '80au bu'r Gymdeithas yn ymgyrchu'n egniol er mwyn tynnu sylw at yr angen am Ddeddf gref er mwyn i'r Gymraeg oroesi yn ystod yr 21 Ganrif. Ym 1983 sefydlwyd Gweithgor Deddf Iaith dan Gadeiryddiaeth Yr Athro Dafydd Jenkins a alwodd ar y Llywodraeth i gyflwyno Mesur Iaith Newydd gan danlinellu gwendidau y Ddeddf bresennol. Yng nghanol yr '80au targedwyd siopau cadwyn yn ogystal a chyrff statudol. Lansiwyd deiseb genedlaethol (30,000 o bobl yn ei llofnodi) a chyflwynodd Dafydd Wigley a'r Arglwydd Gwilym Prys Davies ddau fesur drafft o Ddeddf Iaith Newydd.

Gobeithio symud i'r cyfeiriad hynny oedd ymateb y Llywodraeth drwy gyhoeddi cyfnod o ymghynghori i ofyn barn cyrff cyhoeddus am Ddeddfwriaeth. Nid oedd yr ymghynghoriad yn cynnwys cyrff oedd yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## ESGUSODION.

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i sefydlu Gweithgor Ymghynghorol eto er mwyn llusgo traed, gyda'r esgus o ofyn cyngor pellach ar sefyllfa'r iaith. Galwodd y Gweithgor hwnnw am symudiad pendant yn lle'r llusgo traed parhaol ar fater y Ddeddf. Ond parhau i oedi wnaeth y Llywodraeth drwy sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iaith wedi cyhoeddi adroddiadau ynghyd a drafft mesur llawer rhy wan ac anigonol ac yn amlwg, er ei sefydlu yn Haf 1988, wedi cael ei ddefnyddio gan y Llywodraeth rhag cyflwyno mesur Iaith digonol.

Cyhoeddwyd yn Araith y Frenhines bod yna fwriad i gyflwyno mesur yn ystod tymor y Llywodraeth 1992-93. Mae'r Gymdeithas yn poeni y bydd y mesur hwn ar ffurf y drafft mesur a baratowyd gan y Bwrdd Iaith. Drwy

Ddeddf o'r fath mi fydd rhaid parhau i dreulio amser ac egni i ymgyrchu am gonsesiynau unigol.

**YMGYRCHU YMLAEN.**

Beth bynnag a wna'r llywodraeth yn y maes hwn yn hanner cyntaf y ddegawd gallwn gasglu'r canlynol:
i) Y bydd yn ceisio cyfyngu i'r eithaf ar faint y newidiadau i'r system bresennol, gan ymateb yn unig i bwysau.
ii) Y bydd yn ceisio cyfyngu deddfwriaeth i hawliau unigolyddol i'r ychydig a aiff allan o'u ffordd i fynnu eu hawliau.
iii) Y bydd yn sicrhau fod eu cyfeillion yn y sector preifat yn cael ei heithrio o unrhyw orfodaeth i roi cyfiawnder i'r iaith a chan y bydd y sector preifat yn ehangu'n gyson, felly hefyd y bydd dylanwad unrhyw Ddeddf Iaith o'r fath yn lleihau.
iv) Y bydd yn sicrhau bod unrhyw gorff a sefydlir i ofalu am weithrediad Deddf Iaith o'r fath yn gwango anemocrataidd - a'i aelodau wedi'u penodi gan y Llywodraeth.

Mewn gair, gallwn gasglu y bydd yn rhaid i ni barhau i bwyso trwy'r ddegawd am gyfiawnder sylfaenol i'r iaith o ran ei statws cyhoeddus. Bydd angen cynyddol hefyd i estyn yr ymgyrchu i lefel cymunedol ac i'r sector wirfoddol gan sicrhau fod cyfleusterau ar gael i sefydliadau gwirfoddol drefnu eu gweithgarwch trwy gyfrwng y Gymraeg.
Eisoes mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno Deddf Iaith Newydd ond ar hyn o bryd heb wneud yn gyhoeddus beth fydd cynnwys y ddeddfwriaeth honno. Fodd bynnag y tebygolrwydd yw y bydd y drafft mesur yn fersiwn gwannach o ddrafft mesur y Bwrdd Iaith- drafft a gondemniwyd gan y Gymdeithas ac eraill fel un hollol annigonol.

Cyhoeddwn yma yr egwyddorion sylfaenol y credwn sydd yn hanfodol i unrhyw Ddeddf Iaith sydd am chwyldroi sefyllfa y Gymraeg yng Nghymru. Heb gynnwys yr egwyddorion yma ni fydd y mesur yn ddim mwy na thacteg gwleidyddol neu dull arall o oedi gweithredu positif ar fater sefyllfa'r Gymraeg.

Mae ein sefyllfa wrth ymgyrchu dros Ddeddf Iaith gynhwysfawr ar ddechrau'r nawdegau yn un anodd. Ni dderbyniwn y ddadl y dylid derbyn Mesur y llywodraeth fel yr un gorau a gawn ac yna ymdrechu i'w gryfhau yn y Senedd, a thrwy bwysau cyhoeddus. Eisoes cawsom brawf o'r hyn mae'r llywodraeth yn fodlon ei wneud - ac mae'r ymdrech honno yn gwbl annigonol. Cam anferth yn ôl fyddai drafft mesur gwan. Ni fydd yn gwneud dim ond cadarnhau y drefn bresennol ar bapur a thrwy hynny gau'r drws ar unrhyw ddeddfu pellach neu newidiadau yn y Ddeddf am o leiaf chwarter canrif.

Cyhoeddwn felly yr egwyddorion canlynol ynghlwm â'r neges y gwrthodwn dderbyn unrhyw gynigion gwanach. Dyma'r egwyddorion sy'n angenrheidiol i sicrhau dwyieithrwydd naturiol cymunedol, a dyma'r egwyddorion y bydd Cymdeithas yr Iaith yn parhau i ymgyrchu drostynt.

**Y MESUR.**

Rhyddhau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg yw pwrpas DEDDF IAITH GYFLAWN. Er mwyn sicrhau hyn rhaid i'r mesur fod yn seiliedig ar yr

egwyddor canolog o <u>DDWYIEITHRWYDD NATURIOL CYMUNEDOL.</u> Nid yw'r egwyddor o ddilysrwydd cyfartal a gynigir gan y Bwrdd yn sail digon cryf i weld gweithredu Deddf fydd yn newid pethau. Canlyniad pasio Deddf yn seiliedig ar ddilysrwydd cyfartal fydd ei gwneud hi'n llawer anoddach i weithredu'r cymalau o'i mewn gan na fydd yr egwyddor canolog o ddwyieithrwydd naturiol cymunedol wedi ei ymgorffori a'i sefydlu yn y drefn.

## DWYIEITHRWYDD NATURIOL CYMUNEDOL.

Egwyddor yw hon sy'n gwrthgyferbynnu'n llwyr a'r egwyddor o ddilysrwydd cyfartal. Cadarnhad o hawliau unigolyddol carfan fach ymysg y Cymry Cymraeg yw dilysrwydd cyfartal ac ni fydd yn effeithio dim ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg na'i statws wleidyddol. Gyda dilysrwydd cyfartal fe gedwir y drefn lle nad yw'r Gymraeg ar gael ond pan ofynnir amdani, ac fe'i cedwir "o dan y cownter". Ni wna hyn ond rhoi sel bendith ar israddoldeb y Gymraeg a chreu sefyllfa lle na fydd y defnydd o'r Gymraeg yn ehangu.

Gyda dwyieithrwydd naturiol cymunedol cyfreithlonid sefyllfa lle bydd pob gwybodaeth a anelir at y gymuned ar gael yn naturiol ddwyieithog heb fod neb yn gorfod gwneud cais am y naill iaith na'r llall. Dylai hyn gynnwys pob ffurf ar ohebiaeth gyffredinol, taflenni, pecynnau, llyfrynnau gwybodaeth, posteri ac unrhyw ffurflenni sydd ar gael i'r cyhoedd. Byddai hefyd yn cynnwys unrhyw wasanaethau a gwasanaethau gofal gynigir gan unrhyw gorff sy'n gorfod cydymffurfio a'r drefn.

Golygai hyn y byddai'n rhaid i bopeth ddod yn ddwyieithog ond am rai eithriadau arbennig (gweler adran Arolwg Barnwrol). Byddai dwyieithrwydd yn orfodol ar lywodraeth ganolog a llywodraeth leol, cyrff llywodraethol, awdurdodau a chyrff cyhoeddus. Cynhwysid hefyd unrhyw fonopoliau a chyn-gyrff cyhoeddus wedi eu preifateiddio yn ogystal a banciau, cymdeithasau adeiladu a siopau cadwyn mawr. Bydd angen i'r Corff Statudol gyda'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Ddeddf benodi trothwy addas i glustnodi pa siopau cadwyn ddylai ddod dan oblygiadau'r ddeddfwriaeth. Gwyrdroid y drefn bresennol yn llwyr gan y byddai y Gymraeg yn ased mewn gweinyddiaeth. Nid sicrhau Deddf Iaith i'r garfan fechan honno o Gymry sy'n ddigon hyderus i ofyn am wasanaeth Cymraeg yw'r nod ond ennill Deddf fydd yn fanteisiol i'r gymuned gyfan, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg. Defnyddir yr ofn i sathru ar hawliau Cymry di-Gymraeg fel dadl yn erbyn cyflwyno deddfwriaeth. Ond wrth gydnabod hawl y gymuned awn ymhellach na chydnabod hawliau unigol a deddfwn fel bod bywyd y gymuned yn cael ei chyfoethogi mewn ffordd fanteisiol i'w thrigolion.

Drwy gydnabod hawliau cymunedol gwrthwynebwn y syniad o hawliau unigolyddol a chydnabyddwn ein bod yn wlad o gymunedau dwyieithog lle mae modd i'r ddwy iaith gyd fyw yn heddychlon. Drwy sicrhau fod y ddwy iaith yn cyrraedd y gymuned yn gwbl naturiol cyfreithlonwn hawl y Cymry Cymraeg i ddefnyddio eu hiaith yn ogystal a hawl y di-Gymraeg i weld dwy iaith yn fyw o fewn eu cymuned heb i hynny amharu dim ar eu hawliau

hwy. Dengys gwaith ymchwil bod yna ddigon o ewyllys da tuag at yr iaith Gymraeg. Nid yw cydnabod hyn yn ddigon. Rhaid deddfu fel bod y diddordeb hwn yn y Gymraeg ymysg dysgwyr a'r teuluoedd di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i Ysgolion Cymraeg, yn cael ei sianelu yn bositif. Drwy wneud hynny gallwn greu hinsawdd lle bydd yr iaith Gymraeg unwaith eto yn cael ei gweld fel iaith fyw, swyddogol a defnyddiol.

Dyna'r egwyddor sylfaenol i unrhyw Ddeddf o werth. Nid llunio mesur yw pwrpas y ddogfen hon ond yn hytrach rhoi cyhoeddusrwydd i'r egwyddorion a'r cymalau sy'n hanfodol i ddiogelu a datblygu statws a defnydd o'r iaith Gymraeg.

Ni allwn fel Cymdeithas gefnogi unrhyw mesur oni bai ei fod yn cynnwys yr egwyddor uchod a'r cymalau sy'n dilyn.

## AROLWG BARNWROL.

Yn eu drafft mesur presennol mae'r Bwrdd Iaith yn cynnig AROLWG BARNWROL lle bydd raid i unigolyn brofi ger bron llys barn bod ei gais am wasanaeth Cymraeg yn ddigon rhesymol i fynnu cydymffurfiad y corff dan sylw.

Unwaith eto mae'r pwyslais ar yr unigolyn. Yr unigolyn sy'n gorfod mynd drwy'r drafferth, y straen a'r gost mewn achos llys o brofi rhesymoldeb ei gais yn hytrach na bod y corff y mae'n ei herio yn gorfod cyfiawnhau nad ydyw yn gweithredu polisi dwyieithog cyflawn.

Cytunwn bod angen AROLWG BARNWROL i weithredu'r Ddeddf ond dylid symud y pwyslais oddi ar yr unigolyn a'i osod ar y corff sy'n gweithredu'r Ddeddf.

Byddai DEDDF IAITH NEWYDD fel yr un a amlinellir yn y ddogfen hon yn ei gwneud hi'n orfodol i bob gwybodaeth a anelir at y cyhoedd ddod yn naturiol ddwyieithog. Cydnabyddwn fodd bynnag na ddylai y cymal hwn fod yn absoliwt. Gall sefyllfa godi lle na fydd unrhyw fwriad i ohebiaeth /ddogfen fewnol gyrraedd y gymuned. Mewn achos o'r fath bydd angen i'r corff perthnasol brofi ger bron AROLWG BARNWROL nad oes unrhyw ddiben mewn cyhoeddi y mater dan sylw yn ddwyieithog.

Mewn hinsawdd naturiol ddwyieithog pwrpas AROLWG BARNWROL fydd caniatau, dan amgylchiadau arbennig, i rai cyhoeddiadau eithrio allan o gymalau deddfwriaeth yn hytrach nac optio i mewn fel mae drafft y Bwrdd yn ei gynnig.

Cydnabyddwn mai rhagfarnu o blaid y Gymraeg fyddai'r Mesur ac felly ni fyddai modd defnyddio'r AROLWG BARNWROL yn erbyn unrhyw gorff mewn ffordd fyddai'n groes i ysbryd Deddf sydd a'r bwriad o ryddhau defnydd o'r Gymraeg.

## GWEITHREDIAD Y DDEDDF.

Oherwydd y patrwm ieithyddol presennol yng Nghymru mae'n rhaid cydnabod y byddai'n haws i rai ardaloedd nac eraill gydymffurfio a gofynion y Ddeddf. Er hynny ni welwn fod hyn yn rheswm dros ddeddfu yn wahanol i wahanol ardaloedd. Pwrpas y Ddeddf yw rhyddhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy Gymru gyfan ac nid yn unig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r Gymraeg yn gryf.

Gan gadw mewn cof beth yw'r sefyllfa ieithyddol dylid sicrhau bod rhai ardaloedd yn cael mwy o amser nac eraill i gydymffurfio a gofynion y Ddeddf. Ond hyd yn oed pan ganiateir hyn i ardal neu rwydwaith o ardaloedd fe fydd yn rhaid sicrhau cydymffurfiad yn y pen draw. Dylai'r llywodraeth ryddhau grantiau iaith yn yr ardaloedd, ac mewn meysydd, lle mae problemau yn codi. Ychwanegiad fyddai hyn at y cymorthdal y byddai'n rhaid ei roi ar unwaith i gyrff llywodraethol er mwyn iddynt weithredu'r Ddeddf.

## GWASANAETHAU A'R CYHOEDD.

Byddai DWYIEITHRWYDD NATURIOL CYMUNEDOL yn cydnabod hawl pawb i wasanaeth Cymraeg gan y cyrff hynny, neu adrannau ohonynt sy'n gorfod cydymffurfio a gofynion y Ddeddf. Golyga hyn y bydd yn rhaid i bob adran o'r cyrff dan sylw gael person/personau fydd yn abl i ddelio drwy'r Gymraeg ag unrhyw ymholiad a wneir neu unrhyw wasanaeth a gynigir. Mae hyn i ddigwydd yn naturiol mewn banciau, swyddfeydd post, cymdeithasau adeiladu, a siopau cadwyn mawr ac unrhyw le sy'n delio a'r cyhoedd yn gyson.

Eto fe fydd hi'n haws cydymffurfio a'r gofyn mewn rhai ardaloedd nac eraill. Er mwyn sicrhau fod y Ddeddf yn cael ei gweithredu drwy Gymru gyfan dylid annog a rhyddau gweithwyr i fynd ar gyflog llawn i fynychu cyrsiau dysgu Cymraeg a hynny yn ystod oriau gwaith. Dylid sicrhau cyfalaf fel y gall y sefydliadau addysgol perthnasol ddarparu'r cyrsiau gan wneud yn siwr na fydd y gost yn disgyn ar ysgwyddau'r gweithwyr. Dylai'r anogaeth i fynychu'r cyrsiau yma fod yn weithredol drwy Gymru gyfan gan greu sefyllfa ymhen ychydig flynyddoedd lle gellir delio ag unrhyw ymholiad a wneir yn y Gymraeg mewn unrhyw ran o Gymru. Ynghlwm wrth hyn mae hawl ABSOLIWT unrhyw weithiwr i fynychu cwrs dysgu Cymraeg.

## Y GYMRAEG A'R DDEDDF GYSYLLTIADAU HILIOL.

Bydd angen tynnu y Gymraeg allan o'r DDEDDF CYSYLLTIADAU HILIOL fel na ellir defnyddio diffyg gallu o'r Gymraeg fel sail dros anghyfiawnder hiliol.

Er mwyn gweithredu GWASANAETHAU A'R CYHOEDD bydd yn rhaid sicrhau'r hawl i wneud gwybodaeth o'r Gymraeg yn amod wrth benodi unrhyw un i swydd fydd yn golygu cysylltiad cyson a'r cyhoedd. Eto cydnabyddwn yr angen i sefydlu trothwy derbyniol wrth bennu hyn.

## Y SECTOR BREIFAT.

Nodwyd eisoes y dylai pob awdurdod a chorff Llywodraethol, monopoliau, cwmniau gwladol wedi eu preifateiddio, banciau, cymdeithasau adeiladu a siopau cadwyn mawr (trothwy i'w bennu), orfod cydymffurfio a gofynion y Ddeddf.

Mae drafft fesur Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn anwybyddu'r Sector Breifat yn llwyr. Credwn y dylai'r cyrff enwir uchod gydymffurfio a dechrau gweithredu gofynion y Ddeddf. Ond dylid hefyd sefydlu gweithgor (fel rhan o Gorff Statudol: gweler yr adran AROLYGU GWEITHREDIAD Y DDEDDF) a fydd yn chwilio yn benodol am ffyrdd o

ymestyn y Ddeddf i adrannau eraill o'r Sector Breifat. Drwy ymgynghori a chyrff preifat eraill gallai'r gweithgor argymell i'r Llywodraeth gyfres o gymorthdaliadau fyddai yn galluogi cyrff preifat eraill i weithredu'r Ddeddf mewn cyfnod penodedig. Rhan o hyn fyddai sicrhau'r hawl i unrhyw gorff a ddeuai o dan y trothwy i gonsesiynau treth yn erbyn unrhyw wariant a wneir wrth gyflwyno'r Gymraeg yn rhan o weinyddiaeth busnes.

Dylai arolygu'r Ddeddf fod yn broses ddeinamig gan esblygu drwy'r amser er mwyn sicrhau dwyieithrwydd mewn cymaint o agweddau ar fywyd ag sy'n bosibl.

**ADDYSG.**

Byddai DEDDF IAITH NEWYDD yn cyfarwyddo'r Awdurdodau Addysg ac unrhyw gyrff, sefydliadau neu fyrddau addysgol sy'n gweithredu yng Nghymru i lunio Arolwg Iaith bob pum mlynedd gyda'r bwriad o lunio a gweithredu cynllun strategol i ddarparu Addysg Gyflawn Gymraeg i bob un o bob ystod oed o fewn ei gymuned/ei chymuned ei hun.

Byddai'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Statws Statudol i'r Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg fyddai'n cynnwys y dyletswydd o dderbyn a gweinyddu grant bloc gweinyddol oddi wrth y Swyddfa Gymreig.

**ADOLYGU GWEINYDDIAD Y DDEDDF.**

Bydd angen Corff Statudol i arolygu gweithrediad y Ddeddf ac i weithredu yr argymhellion eraill a nodir yn y ddogfen hon.

Credwn bod angen corff statudol newydd gyda grym ariannol ac wedi ei sefydlu ar batrwm democrataidd yn seiliedig ar gyfansoddiad o gynrychiolwyr o awdurdodau lleol drwy Gymru. Dylid sicrhau bod cyfran arbennig o aelodaeth y corff wedi ei ethol yn ddemocrataidd. Dylai'r corff hefyd gael grymoedd penodol, megis yr hawl i fynd ag unrhyw sefydliad nad yw'n cydymffurfio a gofynion y Ddeddf o flaen Llys Barn. Dylai'r corff hefyd fod a chyfrifoldeb dros benodi a rhannu grantiau yn unol a'r awgrymiadau a nodir yn y ddogfen hon. Yn sicr dylid sefydlu corff iaith statudol fydd yn atebol i ofynion y bobl yn hytrach na'r llywodraeth.

Mae hanes BWRDD YR IAITH GYMRAEG yn dangos yn glir nad yw yn gymwys i dderbyn swyddogaeth statudol parhaol.

**LLYSOEDD.**

Byddai DEDDDF IAITH NEWYDD yn cadarnhau hawl y diffinydd i ddewis iaith yr achos llys. Credwn hefyd y dylid sefydlu system gyfieithu broffesiynol gyda'r staff yn cael hyfforddiant gan adran yr Arglwydd Ganghellor.



## ADDYSG AR GYFER CYMUNEDAU RHYDD.

### DADANSODDIAD.

### 1. DATBLYGIAD ADDYSG GYMRAEG.

Ers sawl degawd bellach bu twf mawr yn y galw am addysg Gymraeg ar draws yr ystod oedran mewn trawsdoriad o ardaloedd yng Ngymru. Ar ddechrau'r 80au gwelai'r Gymdeithas yr angen am gael un corff i arolygu, llywio a gweithredu strategaeth genedlaethol i ddatblygu pob agwedd ar addysg Gymraeg. Yn sgil ymgyrch gref a chonsensws barn yng Nghymru dros rinwedd corff o'r fath fe sefydlwyd y Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg. Ers sefydlu PDAG mae'r Gymdeithas wedi ymgyrchu ar i PDAG fedru gwireddu ei botensial trwy gael y grym a'r cyllid anghenrheidiol i weithredu ei gynllun gorfforaethol.

Ymhellach, yn ystod yr wythdegau daeth aelodau'r Gymdeithas i ystyried fwy fwy nad digon addysg Brydeinig wedi ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod rhaid i natur a chynnwys yr addysg ac yn wir y dulliau dysgu adlewyrchu gwir gwriciwlwm Gymreig. Cyflwynodd y Gymdeithas ddau bapur trafod "Addysg Berthnasol" a "Dealltwriaeth Cymunedol" i grisialu meddyliau myfyrwyr ysgol a choleg ac athrawon ynghylch pa mor amherthnasol i anghenion cymuned a Chymru yw ein sefydliadau addysg. Daethom i alw yn gyntaf am gorff o wybodaeth dan y teitl " Astudiaethau Cymunedol" i gael ei gyflwyno ac yna yn ddiweddarach i alw am "Dealltwriaeth Gymunedol" fel thema trawsgwriciwlar i'w gyflwyno fel rhan hanfodol o gwriciwlwm pob ysgol. Cyd-ddigwyddodd y datblygiad syniadol yma ag ymgyrch dros Gwriciwlwm Cymreig a Chymunedol gyda sefydlu Cyngor Cwriciwlwm Cymru. Yn ddios mae sefydlu CCC wedi bod yn gam ymlaen o ran gweithredu a datblygu'r cysyniad o greu Cwriciwlwm Cymreig.

Ond y mae eto ffordd bell i fynd yn enwedig gan mai cwango yw CCC sydd a'i bennaf nod mewn gwthio dysgu pynciol a phwyslais obsesiynol y Toriaid ar y 3 R yn hytrach na hybu dysgu thematig. Ond yr hyn sydd yn bwysig yw bod y galw am addysg Gymraeg i blant a phobl ifanc o deuluoedd Cymraeg a di-Gymraeg wedi tyfu a thyfu trwy gydol y ddegawd ddiwethaf a bod Awdurdodau Addysg wedi cael eu gwthio i ymateb i'r galw trwy ddarparu ysgolion cyfrwng Cymraeg - mewn sawl ardal mae'r galw yn dal yn llawer mwy na'r ddarpariaeth. Ar ben hyn bu twf enfawr yn nifer yr oedolion sydd am ddysgu'r Gymraeg ac unwaith eto y stori ond yn rhy aml yw nad oes digon o ddosbarthiadau ar gael. Nid yw'r cyllid a benir gan y Swyddfa Gymreig yn ddigonol o bell ffordd i ateb y galw am addysg Gymraeg. Dyma un o fuddugoliaethau a chryfderau y mudiad cenedlaethol oherwydd rhaid cofio bod y galw yn digwydd yn wyneb:

### 2. RHEOLAETH GYNYDDOL Y WLADWRIAETH BRYDEINIG.

O dan y Toriaid gwelwyd strategaeth unplyg i ganoli rheolaeth dros addysg yn nwylo y wladwriaeth Brydeinig - yng Nghymru trwy'r Swyddfa Gymreig. Gwelwyd llu o enghreifftiau o'r strategaeth hwn ar hyd y ddegawd

diwethaf - gwthio ysgolion i optio allan o reolaeth awdurdodau addysg lleol, sefydlu Cwangos i reoli addysg megis y Cyngor Arianu Addysg Uwch a'r Cyngor Asesu a'r Cyngor Cwriciwlwm a mynnu cyflwyno cwriciwlwm unffurf Brydeinig i ysgolion Cymru a Lloegr. Mae'r symudiad yma yn gwbl niweidiol i'r Gymraeg ac addysg Gymraeg. Golyga mynd a grym ymhellach oddi wrth gymunedau lleol a'i ganoli yn Llundain a Chaerdydd. Wrth i'r Toriaid ddarnio Cymru efo'u cynlluniau am ad-drefnu llywodraeth leol mae pryder mawr y bydd yr unedau llai yn rhy fach a rhy dlawd i gynnal darpariaeth addysg ddwyieithog ac ni fydd modd iddynt gynllunio ymlaen a chwarae rol strategol yn natblygiad addysg Gymraeg.

Ymhellach gallwn rhagweld y bydd hybu cystadleuaeth rhwng ysgolion a'r disgwyliad i ysgolion rhedeg fel busnesi bach yn sicr o olygu cau ysgolion bach a bygwth gwasanaethau costus fel athrawon bro a chanolfannau i fewnfudwyr.

## 3. TROSGLWYDDO ADDYSG O FOD YN WASANAETH I FOD YN NWYDD AR Y FARCHNAD AGORED.

Dyma gwir fwriad y Toriaid. Ers blynyddoedd maent wedi bod yn preifateiddio ar y slei drwy newynu'r sector gyhoeddus o adnoddau a gorfodi nawdd a dylanwad y sector breifat. Mae'r Toriaid yn dweud eu bod am godi safonau a rhoi mwy o ddewis i rieni fel y gall rhieni "siopa o gwmpas" am yr addysg orau i'w plant. Ond yn y bon beth mae'r Toriaid yn gwneud yw creu system addysg ddeuol - addysg o safon uchel i leiafrif breintiedig sydd yn gallu ei phrynu yn yr ysgolion bonedd a llwyddianus a'r gweddill yn derbyn addysg sylfaenol yn unig.

Erbyn hyn disgwylir i ysgolion godi llawer o gyllid eu hunain ac i rieni gyfrannu at gost addysg eu plant. Mae hyn yn hollol anheg i rieni sydd yn dibynnu ar fudd-daliadau.

Yn ol athroniaeth y farchnad fe fesurir llwyddiant addysgol yn unig yn ol canlyniadau arholiadau ac mae plant a phobl ifanc yn cael eu troi mewn i ystadegau. Mae polisiau'r Toriaid yn gosod un plentyn yn erbyn y llall mewn cystadleuaeth a'i gilydd yn sgil yr holl bwyslais ar brofion cyhoeddi canlyniadau arholiadau ac hefyd rhwng ysgolion.

Mae'r gwerthoedd materol unigolyddol a chystadleuol yma yn gwbl groes i'r gwerthoedd Cymreig o gydweithio a chyfrifoldeb cymdeithasol. Ymhellach mae'r math o addysg mae'r Toriaid am hybu yn sicr o niweidio ein cymunedau am nad yw'n gwneud dim i fagu plant a phobl ifainc sydd ag ysbryd o gyfrifoldeb at ei cymunedau am eu bod trwy'r system addysg wedi dod i ddeall eu cymunedau.
O ran y Gymraeg ni all fyth fod lle i'r Gymraeg yn y byd prynu a gwerthu am nad oes iddi'r "clout" ariannol sydd gan yr iaith Saesneg. Rhaid i ni felly sefyll yn erbyn addysg adweithiol gul a Phrydeinig y Farchand Rydd oherwydd bod y math yma o addysg yn dieithrio'n plant oddi wrth y Gymraeg a'u Cymunedau.

## 4. CASGLIADAU.

Ein casgliad yw bod y Ddeddf Addysg yn rhoi cyfle unigryw i'r Gymraeg wrth ei chyflwyno fel rhan o'r Cwriciwlwm craidd ond mae momentwm y newidiadau addysg

dros y ddegawd diwethaf yn tanseilio holl ddatblygiad addysg Gymraeg a Chymreig.

## GWELEDIGAETH.

### 1. NOD.

Ein nod yw sefydlu addysg gymunedol fel yr unig drefn all roi cyfle i'r Gymraeg a chymunedau Cymru fyw. Fel y dadleuwn yn ein dogfen "Addysg y Gymuned Rhydd v Addysg y Farchnad Rydd" nid ydym am wrthweithio newidiadau'r Toriaid yn unig - gwelwn yr angen i greu cyfundrefn addysg ar wahan i Gymru sy'n wir gymunedol gyda'r Gymraeg ac addysg Gymraeg yn rhan sylfaenol o adfywiad ein cymunedau. Rydym am gael addysg fydd yn medru rhyddhau trwy fagu ewyllys yn y genhedlaeth nesaf a'u harfogi gyda'r wybodaeth angenrheidiol i amddiffyn ac adeiladu cymunedau Cymraeg.

Inni mae addysg yn wasanaeth a ddylai fod ar gael i bawb yn y gymuned waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol. Yn hytrach na seilio addysg ar ofynion y farchnad seiliwn natur a datblygiad ein haddysg ar anghenion y gymuned a'r iaith Gymraeg.

Ac os yw'r Gymraeg i fyw mae'n rhaid i'r system addysg fod yn gyfrwng i ddatblygu potensial plant a phobl ifainc yn y ffordd ehangaf bosibl gan eu paratoi ar gyfer cyfranogi yn llawn yn nyfodol eu cymunedau. Mae'n rhaid i'r Gymraeg wrth feddyliau effro, ymchwilgar sydd yn deall eu cymuned ac sydd yn teimlo cyfrifoldeb at sicrhau dyfodol i'w hiaith a'u cymuned.

### 2. ADDYSG GYMREIG A PHRYDEINIG.

Credwn fod cael dysgu'r Gymraeg a chael addysg sy'n Gymreig ei natur a'i chynnwys a'i hethos yn hanfodol i hunaniaeth plant Cymru. Mae gennym gred sylfaenol yng ngwerth yr iaith Gymraeg. Ac felly, rydym am i bawb gael y cyfle i dderbyn addysg gyflawn Gymraeg yn eu cymuned eu hunain. I gyfarfod yr angen a'r galw am addysg Gymraeg rydym am weld pob ysgol a choleg ar bob lefel yn cynnig addysg sydd yn gyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob rhan o Gymru. Gwelwn addysg gyfrwng Gymraeg a natur Cymreig yn gyfrwng sydd yn creu pont rhwng mewnfudwyr a'r boblogaeth gynhenid. Os nad oes addysg Gymraeg ar gael mewn ffordd naturiol yn y gyumed yna dyna pryd ceir rhaniadau a chyfle i wrth-Gymreictod fagu. Ni ddylai addysg Gymraeg a Chymreig felly fod yn fater o optio allan o'r norm o addysg gyfrwng Saesneg neu fe'i gwelir fel rhywbeth eithafol sy'n ormes os oes rhaid ei gael mewn un sefyllfa e.e. addysg gynradd ond nid mewn sefyllfa arall e.e. addysg uwch.

Rhaid felly wrth drefniadaeth gwbl Gymreig a democrataidd i'r system addysg yng Ngymru a dyma'r unig ffordd i sicrhau addysg sy'n Gymreig a chymunedol. Dyma ydi pwysigrwydd sefydlu PDAG er gwaethaf ei wendidau am ei fod yn ei hanfod yn sefydliad democrataidd Cymreig.

### 3. ADDYSG Y GYMUNED RYDD NID Y FARCHNAD RYDD.

Dyma grisalu y dewis athronyddol ac ymarferol. Nid ynysoedd yw ysgolion a cholegau na sefydliadau'r drefn

addysg. Mae angen iddynt intigreidio i fywyd y gymuned leol a bywyd y genedl gan gyfrannu at y frwydr i greu cymunedau a chenedl rydd Gymreig. Credwn mai dim ond addysg gymunedol o'r fath a all lawn ddatblygu potensial unigol disgyblion.

## 4. RHYDDID I FYFYRWYR.

Rydym am i addysg fod yn blentyn ganolog ac nid yn trin plant a phobl ifainc fel ystadegau neu beiriannu llyncu a chwydu gwybodaeth. Mae angen i'r drefn addysg roi cyfle i fyfrwyr ysgol a choleg leisio eu barn a chwarae rhan ganolog yn natblygiad eu haddysg.
Mae gennym fel Cymdeithas brofiad mawr ym maes addysg - y mae llawer o'n cefnogwyr ymhlith myfyrwyr ac athrawon ac o ganlyniad credwn fod gwir rym gennym i wireddu ein polisiau.

## POLISIAU.

## 1. RHAGAIR.

Gan ein bod yn son am osod dewis gerbron pobl Cymru rhwng addysg y Farchnad Rydd ac Addysg y Gymuned Rydd sydd yn golygu ein bod yn anelu at newid holl natur a chyfeiriad addysg fel y mae rydym yn sicr o fod angen polisiau cyffredinol a phenodol. Gyda llawer o bolisiau'r ddau fath byddwn fel Cymdeithas angen edrych am gydweithrediad o sawl cyfeiriad: Llywodraeth leol, rhieni, plant a phobl ifanc eu hunain, oedolion sydd mewn addysg, athrawon a darlithwyr a tiwtoriaid. Hefyd bydd angen cefnogaeth amrywiol arnom - cefnogaeth gweithredol a chefnogaeth syniadol. Trwy'r holl bolisiau yr hyn yr ydym am wneud yw dangos y camau ymarferol bydd yn rhaid inni ac eraill eu cymryd i wireddu ffordd well i addysg yng Nghymru.

Nodwn bydd angen i'r grym ymgyrchu ddod o bob cymuned gan na fydd Awdurdodau Addysg Canolog h.y. bydd angen mynd ar ol pob sefydliad yn unigol yn y dyfodol.

## 2. ADDYSG GYMRAEG.

Fel rhan o ddyhead y gymuned i greu'i threfn addysg ei hun a chreu'i dyfodol mae angen i addysg fod yn naturiol Gymraeg. Anelwn yn y tymor hir at droi pob ysgol a choleg yn rhai Cymraeg.

## CAMAU.

i) Sicrhau bod pob ysgol gynradd ac uwchradd a choleg yn yr ardaloedd Cymraeg yn Gymraeg eu cyfrwng. Dylai'r sefydliadau hyn osod amserlen a thargedi cyrhaeddiad penodol i'w hunain i gyflawni hyn.

ii) Yn yr ardaloedd llai Cymraeg i sicrhau rhwydwaith cyflawn o ysgolion a cholegau Cymraeg gyda rol cenhadol gan ganolbwyntio'n benodol ar yr oedran 3 - 7 oed fel bod carfan helaeth a chynyddol o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynhyrchu ac yn gweld perthnasedd yr iaith i'w cymuned eu hunain.

iii)Sicrhau cyllid realistig o'r Swyddfa Gymreig i wireddu hyn.

iv) Cadarnhawn ein cred yn yr angen am Gorff Datblygu Addysg Gymraeg wedi ei reoli'n ddemocrataidd gyda'i bloc grant ei hun a swyddogaethau datblygu fel cyhoeddusrwydd ac ymchwil. Ni ildiwn fyth i awydd y llywodraeth i drin y mater hwn o dan eu cwangos dof eu hunain. Erys yr un

angen am fforwm cenedlaethol democrataidd i ddatblygu addysg Gymraeg ar bob lefel.

v.) Addysg oedolion - bod digon o ddosbarthiadau a thiwtoriaid ar gael i ddysgu'r Gymraeg i oedolion a bod y cyfrifoldeb am hyn yn disgyn i'r Corff Datblygu Addysg Gymraeg ac nid i unrhyw gwango.

vi) Targedu Ysgolion Cymraeg - ein bod yn cychwyn gyda'r rhain a'u troi'n fodelau ac yn adlewyrchiad o'r drefn newydd yr ydym eisiau ei chreu sef:-

3. ADDYSG GYMUNEDOL GYMREIG.

Credwn fod astudio'r gymuned leol a datblygu Dealltwriaeth Gymunedol fel thema traws gwriciwlwm yn holl bwysig ac yn wir y dylai'r gymuned fod yn ffocws i bob lefel o addysg. Dylai fod yr un statws i'r thema draws gwriciwlar hon ag sydd i bynciau unigol. Gwelwn fod dysgu thematig yn gyfle i ddatblygu sgiliau fel meddwl dros eich hun, cydweithio, ymchwilio, dadansoddi. Gosodwn bwyslais ar y dull yma o ddysgu yn hytrach na'r dull o athro/athrawon yn cyflwyno gwybodaeth a myfyrwyr yn ei gofnodi a'i gofio a'i ail gyflwyno mewn arholiad. O ran asesu rydym o blaid asesu sy'n cadarnhau cyrhaeddiad plentyn ac nid yn ei gymharu a chyrhaeddiad plant eraill er mwyn gwahanu plant. Credwn fod addysg gymunedol yn sicr o arwain at addysg sydd yn fyd-eang ei olygon; deall y byd trwy brofiad y gymuned leol.

CAMAU.

i) Mae angen sbarduno Cyngor Cwriciwlwm Cymru i roi mwy o bwyslais ar ddysgu thematig yn hytrach na phynciol a datblygu Cwriciwlwm cyflawn Gymreig h.y. mwy na dim ond perspectif Cymreig ar rai pynciau. Mae angen i Gyngor Cwriciwlwm Cymreig fod yn gorff democrataidd a datblygu'n wir Gyngor Addysg i Gymru. Mae angen ffocws i ddatblygu'r traddodiadau addysgiadol yr ydym mor falch ohonynt fel genedl.

ii) Bod ysgolion a cholegau yn benodi cyd:gysylltydd Dealltwriaeth Cymunedol i weithredu'r thema ar lefel ardal er mwyn sicrhau nad yw'r syniadau'n cael eu cyfyngu i seminarau academyddion, ond yn hytrach yn cael eu gwireddu ym mhob ysgol.

iii)Sefydlu Cynghorau Myfyrwyr Ysgol a choleg i leisio barn a chyfrannu at ddatblygiad eu haddysg.

4. INTEGREIDDIO ADDYSG YN Y GYMUNED.

Credwn fod ysgolion a cholegau fel sefydliadau yn perthyn i'w cymunedau yn wir yn rhannau integral ohonynt. Ond yn anffodus weithiau fe greir rhwystrau sy'n atal yr ysgol rhag fod yn rhan o'r gymuned a'r gymuned yn rhan o'r ysgol. Ymhellach credwn fod angen edrych ar safon addysg fel cymunedau ynddynt eu hunain sy'n gallu ildio profiad cymunedol i blant trwy eu dysgu i gyd fyw a chydweithio a pharchu ei gilydd.

CAMAU.

i) Brwydro i gadw ysgolion ein cymunedau ar agor.

ii) Gwrthwynebu optio allan. Dyma dwyll fydd yn arwain at ganoli grym gyda'r Swyddfa Gymreig a bygwth

gau ysgolion bach.

iii) Dylid meddwl yn nhermau "Cylchoedd Addysg". Byddai'r cylchoedd hyn yn cyfateb yn fras i'r ardaloedd presennol a wasanaethir gan goleg bellach - neu diriogaeth awdurdodau lleol unedol newydd - ac yn cynnwys darpariaeth y coleg, yr ysgolion uwchradd sy'n bwydo'r coleg, yr ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd ynghyd ag addysg feithrin yn yr ardal, addysg oedolion a gwasanaeth adrannau llyfrgell a diwylliant. Dylid integreiddio cynllun addysg ar gyfer y cylch am ddegawd neu ddwy ar y tro lle byddai'r gymuned yn gwneud arolwg ac yn gosod targedi ar gyfer y math o drefn addysg a fyddai'n gwasanaethu anghenion y gymuned leol - yn debyg i'r cysyniad o "gynllun fframwaith" ym maes cynllunio. Bydd hyn yn gyfle i hybu trafodaeth yn y gymuned wedi'i harwain gan yr Awdurdod Addysg leol ac yn ceisio mewnbwn gan bob carfan. Dyma orseddu egwyddorion democratiaeth a chydweithio addysg y gymuned rydd yn lle cystadleuaeth addysg y farchnad rydd.

iv) Sefydlu ysgolion a cholegau fel canolfannau Gymunedol - bod modd i bawb o bob oed wneud defnydd o adnoddau'r ysgol ar ol cau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol e.e. defnyddio'r canolfannau i hyrwyddo ymgyrch enfawr i ddysgu Cymraeg i oedolion.

5. TREFN ADDYSG ANNIBYNNOL I GYMRU.

Uchafbwynt y polisiau a'r camau uchod yw adeiladu trefn addysg sydd yn annibynnol ac unigryw i Gymru. Bydd ein trefn addysg ni yn wahanol yn ei holl bwrpas ac ystyr ac felly bydd yn esgor ar strwythur wahanol - strwythur sy'n wir Gymreig ac nad yw'n adlewyrchiad o strwythur Seisnig heiararchaidd sy'n cylchdroi o gwmpas cwangos. Anelwn at Ddeddf Addysg i Gymru fyddai'n sefydlu Cyngor Addysg Gymreig gyda mewnbwn gan yr holl gylchoedd uchod. Bydd ein trefn addysg ni'n annibynnol felly nid oherwydd fod ei phen yng Nghaerdydd ond oherwydd bod holl natur addysg gymunedol yn wahanol o ran natur a phwrpas i addysg y farchad rydd ac felly'n esgor yn naturiol ar strwythyr a sefydliadau gwahanol.

CAMAU.

i) Creu a chryfhau ein cyrff addysg ein hunain.

ii) Sicrhau rheolaeth democrataidd i'r cyrff hyn a gwrthwynebu'r duedd o reoli addysg Cymru trwy gwangos y Llywodraeth.

iii) Pwyso am addysg i fod yn flaenoriaeth gwario i'r Swyddfa Gymreig a bod adnoddau digonol ar gael i ddatblygu trefn addysg gymunedol Gymreig.

iv) Hybu cydweithrediad gwirfodol mewn cylchoedd addysgol lleol i ddechrau adeiladu trefn newydd o'r gwaelod i fyny.



## DIWYLLIANT RHYDD.

Dyma'r tro cyntaf erioed i ni gynnwys adran ar ddiwylliant yn ein Maniffesto, ond yn ystod y ddegawd diwethaf gwelwyd sawl carfan ym meddiannu a cheisio herwgipio agweddau ar ein diwylliant. Rhown bwysigrwydd o'r newydd felly ar yr adran hon. Ers sefydlu S4C yn 1982, cyfyng fu ein profiad ymgyrchu ym maes "diwylliant". Mae rhai camau pwysig, fodd bynnag, wedi eu cymeryd ers cyhoeddi'r maniffesto diwethaf.

Bu ymgyrchu o dan faner 'rhyddid i'r ifanc' fel bod pobol ifanc yn cael rheolaeth ar eu bywydau eu hunain yn amlwg iawn ym maes cyfryngau torfol. Ymgyrchwyd dros adain rhaglenni ieuenctid o fewn Radio Cymru ac S4C. Yn achos Radio Cymru ad-enillwyd rhaglenni hwyrol 'Hwyrach' o achos y pwysau gwleidyddol, tra dechreuodd S4C weithio i sicrhau mwy o atebolrwydd o du pobol ifanc i'w rhaglenni.

Pan gyhoeddwyd 'Siarter '91' nodwyd yn y siarter honno, nid yn unig yr angen parhaol am adran raglenni ieuenctid o fewn y cyfryngau, ond hefyd yr angen am nawdd di-amod i hybu diwylliant ieuenctid o bob math yng Nghymru. Dangosodd y Gymdeithas hefyd ein cefnogaeth i'r syniad o sianel deledu i'r rhai Saesneg eu hiaith yng Nghymru - carfan o bobl sy'n cael eu hamddifadu o raglenni perthnasol ac adlewyrchol i'w bywydau yn y Gymru gyfoes. Hefyd bu bygythiad i dorri ar y gwasanaeth Cymraeg yn rhai o orsafoedd radio lleol Cymru a bu celloedd lleol o'r Gymdeithas yn ymateb i'r beryglon hynny.

O bosibl yn amlycach na dim, bu'r Gymdeithas ynghanol hybu y byd roc yng Nghymru. Drwy'r flwyddyn trefnir cannoedd o gigs - ar lefel cenedlaethol mawr a rhai llai ar lefel lleol. Drwy hyn buom yn gyfrwng i ddatblygiad cannoedd o grwpiau roc a gwerin Cymraeg. Rhyddhawyd hefyd nifer o recordiau a chasetiau yn enw'r Gymdeithas - cynnyrch gwleidyddol sydd yn torri ar draws y duedd bresennol lle mae pob elfen weledol o ddiwylliant yn cael ei ryddhau gan gyfrwng tu allan i'r Gymdeithas.

Esgorodd hyn oll ac un o ganlyniadau mwyaf positif a blaengar diwylliant ieuenctid sef ffansins. Arwyddocaol a dweud y lleiaf yw fod mwyafrif y ffansins a gynhyrchir yng Nghymru'r dyddiau yma yn cael eu cyhoeddi yn enw'r Gymdeithas, yn hollol wleidyddol a'u cynhyrchu gan aelodau lleol ar hyd a lled Cymru.

Ond yng nghysgod y camau hyn yn hanes y Gymdeithas rhaid hefyd edrych ar y datblygiadau 'diwylliannol' arwyddocaol a fu ers y maniffesto diwethaf. Datblygodd byd teledu tu hwnt i bob adnabyddiaeth. Ers cael S4C daeth yn amlwg bod nifer o sianelau eraill am ein cyrraedd drwy gyfrwng lloeren a chebl ac wrth i fyd teledu droi yn fwy masnachol byth, gan bylu i fod yn wasanaeth, rhaid gofyn lle mae'r Gymraeg yn sefyll ynghanol hyn oll? Chwalodd byd radio i fod yn fwy fyth o orsafoedd masnachol lleol. Arian sydd yn prynu'r hawl i ddarlledu i'r gorsafoedd hyn ac eto mae rol y Gymraeg o dan gwestiwn.

Wrth i'r Bwrdd Iaith ddatblygu i fod yn un o'r cwangos grymusaf yng Nghymru, eu gwaith diweddaraf yw trefnu i sefydlu Cyngor Roc yng Nghymru fydd yn troi y byd roc a'r holl ddatblygiadau diweddara, yn

ddibynnol ar y llywodraeth.

Yr hyn a gasglwn o'r holl ddatblygiadau uchod (ynghyd a llawer mwy nas nodwyd) yw fod cymunedau Cymru wedi colli rheolaeth ar ein diwylliant ein hunain mae'n dod yn amlycach fod un carfan o bobl a rhai sefydliadau yn meddiannu, diffinio a rheoli diwylliant ar ran pawb arall, e.e. Cyngor y Celfyddydau yn penderfynu nad yw'r byd roc yn haeddu nawdd cyfatebol i opera a jazz yng Nghymru ayb. Mae enghreifftiau o'r diffinio haearnaidd hyn yn frith ar hyd pob ystod o ddiwylliant yng Nghymru ac mae hyn wedi dieithrio llawer o bobl o fewn cymunedau. O ganlyniad mae rhai pobl yn penderfynu mai nhw yw 'gwarchodwyr' ein diwylliant ac mai nhw yn unig sy'n meddu ar ddiwylliant - syniad elitaidd sy'n dieithrio cymunedau cyfan. Safonau diwylliant yw safonau un carfan o gymdeithas yn unig ac mewn gwlad o faint Cymru mae hyn yn fwyfwy amlwg.

Yr angen mawr felly yw am i gymunedau a phobl Cymru adfeddiannu ein diwylliant. Er y cydnabyddwn bod diwylliant yn rhywbeth na all unhryw un ei ddiffinio - credwn mai hanfod diwylliant yw ymwneud pobl a'u gilydd o fewn cymuned a bod y gweithgaredd hwnnw yn sail i'r gymuned gyfan. Credwn ymhellach bod diwylliant ieuenctid yn haeddu mwy o nawdd i'w hybu - a dylai sefydliadau fel Cyngor y Celfyddydau fod yn barod i noddi diwylliant yn ystyr eang y gair yn hytrach na'i ddiffinio'n gul a noddi rhai agweddau'n unig.

Ar ol yr ymgyrch ddarlledu a gweld sefydlu S4C, nid ydym yn gweld darlledu na'r un agwedd arall fel nod ynddo'i hun ond fel rhan o ddarlun ehangach. Ni allwn felly gynnig set gyflawn o bolisiau ond hyderwn y bydd y canlynol yn fodd i sbarduno trafodaeth ehangach a manylach ar yr adrannau isod ynghyd a rhai agweddau eraill o'n diwylliant.

## CYHOEDDIADAU CYMRAEG.

Cymharol ychydig fu'r datblygiadau ym maes cyhoeddiadau Cymraeg, mewn gwirionedd crebachodd nifer y cyhoeddiadau yn ystod y ddegawd diwethaf. Yr unig ddatblygiad sylweddol a fu oedd lansio Golwg - ond ni ellir honni fod sefydlu un cylchgrawn sydd yn ceisio adlewyrchu popeth yn ateb ynddo'i hun. Drwy'r blynyddoedd mae gofynion y gymuned wedi newid ond yn anffodus nid yw cyhoeddiadau Cymraeg wedi dilyn a datblygu i adlewyrchu hyn.

Yn sicr mae'n rhaid edrych ar bethau o'r newydd. Ynghlwn a hyn mae angen chwistrelliad o arian gan Gyngor y Celfyddydau i ddatblygu'r maes. Yn anffodus nid yw ymgyrch i geisio ail sefydlu y 'Faner' yn ateb i hyn. Mae realiti y sefyllfa yn cael ei adlewyrchu gan lwyddiant parhaol y papurau bro sydd yn dal i werthu'n dda ac wedi anelu at eu cymunedau eu hunain. Cydnabyddwn bod gofynion cymuned erbyn hyn yn gymhleth a gwahanol ac felly mae rhaid wrth gyhoeddiadau sydd wedi eu hanelu at garfanau penodol o fewn y gymuned yn hytrach na lansio cylchgronau gan obeithio y bydd ychydig gannoedd yn eu prynu. Mae hyn yn creu yr her, ac hefyd y bygythiad mwyaf erioed i'r 'wasg' Gymreig.

Un o nodweddion mwyaf

llwyddiannus Golwg yw yr hyder sydd yn y cylchgrawn, ac er bod nifer o elfennau yn angenrheidiol i ail-greu yr hyder hwnnw, un elfen amlwg yw yr angen am bapur newydd Cymraeg. Erbyn hyn 'Y Cymro' yw ein hunig bapur newydd a chefnogwn unrhyw drafodaeth allai arwain at sefydlu papur newydd fyddai'n dod o Gymru ac wedi ei anelu at Gymru. Yn y cyfamser dylai papurau fel y Western Mail ail-feddwl am y gofod y maent hwy yn ei roi i ateb gofynion y Cymry Cymraeg. Yn sicr, nid yw un colofn fer wythnosol yn gwneud cyfiawnder a'r gynulleidfa.

**LLEN.**

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad un o ddatblygiadau negyddol diwylliant Cymreig yw fod un carfan o bobl yn diffinio, meddiannu a rheoli rhai agweddau o'n diwylliant. Mae'n debyg mai maes llenyddiaeth yw'r elfen amlycaf o hyn. Gellir cael enghreifftiau lu yng Nghymru lle mae gan garfan o bobl yr hawl hunan-benodedig i benderfynu er enghraifft, beth sy'n farddoniaeth a beth sydd ddim. Canlyniad mwy brawychus i hyn yw nad yw gwaith nifer o lenorion ddim yn cael ei gyhoeddi oherwydd nad ydynt yn cydymffurfio a safonau uchel-ael yr 'elit' llenyddol. Canlyniad arall i hyn yw ei fod yn cadarnhau ym meddyliau rhai pobl (a hynny'n haeddiannol mewn nifer o achosion) bod llenyddiaeth Gymraeg yn amherthnasol i'w bywydau. Onibai am ymdrechion rhai gweisg byddai sefyllfa llenyddiaeth Gymraeg yn dipyn tlotach. Ni chredwn y dylai fod gan un corff fel y Cyngor Llyfrau yr hawl absoliwt i benderfynu pa lyfrau a gaiff nawdd neu beidio, ac os oes nifer o banelau nawdd tebyg yn cael ei sefydlu, dylai y panelau hynny fod yn adlewyrchu natur y gymuned.

Credwn yn ei hanfod fod cyfranogi mewn diwylliant yn hawl absoliwt i bawb ac ar hyn o bryd mae safonau a grym yr 'elit' diwyllainnol yn atal hyn.

**RADIO.**

Adennillwyd 'Hwyrach' a bellach mae'r ddarpariaeth i ieuenctid wedi cyrraedd awr a hanner bob nos a theirawr ar fore Sadwrn. Credwn yn gryf y dylai Radio Cymru ehangu i sicrhau rhaglenni yn ystod gyda'r nos cyn 'Hwyrach' yn ogystal a'r rhai wedyn. Yn anffodus mae angen mae'r angen am adran raglenni ieuenctid yn parhau. Agwedd nawddogyld yw'r agwedd sy'n parhau yn Radio Cymru mai cerddoriaeth yn unig sy'n creu rhaglen ieuenctid. Rhaid cofio bod darpariaeth radio ieuenctid yn Gymraeg yn dal yn ei gyfnod cyntaf a bod yn rhaid wrth ymchwil manwl i weld beth yw gofynion y gynulleidfa.

Pryderwn hefyd am y 'compartmenteiddio' sy'n nodweddu rhaglenni Radio Cymru, e.e. nid oes dim o unrhyw ddiddordeb i bobl ifanc ar raglenni'r dydd. Un orsaf genedlaethol sydd gennym ar hyn o bryd a dylai'r ddarpariaeth hynny adlweyrchu yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned. Mae'r agwedd yma yn dieithrio cynulleidfa ac yn mynd a Radio Cymru ymhellach i ffwrdd oddi wrth ddiwylliant cyfoes Cymreig.

Un o'r datblygiadau mwyaf amlwg ym maes radio dros y ddegawd diwethaf yw twf Radio bro. Eisoes sefydlwyd y don gyntaf o orsafoedd megis Sain y Gororau, Sain Abertawe a Radio'r Ddraig Goch a bellach mae gorsafoedd

newydd megis Radio Ceredigion ar fin cychwyn. Croesawn y symudiad hwn tuag at wasanaeth radio sydd yn ateb gofynion lleol y gymuned. Pwysleisiwn fodd bynnag bod yn rhaid i unrhyw orsaf felly fod wedi ei wreiddio yn y gymuned ac yn cael ei redeg gan bobl leol, fydd felly a gwybodaeth fanwl am ofynion a natur y gymuned honno. Bydd unrhyw beth arall yn ymdrech gosmetig i wasanaeth gymuned er mwyn elw masnachol. Credwn y gall radio bro wwedi ei osod ar y seiliau cywir fod o fudd i'r gymuned, yn economaidd yn ogystal a diwylliannol.

Nodwn hefyd yr hyderwn na fydd rhaid i ni - os dilynir y canllawiau uchod - frwydro dros wasanaeth Cymraeg ar orsafoedd newydd fel y bu rhaid i ni yn y gorffennol gyda Sain y Gororau a Radio'r Ddraig Goch.

## Y BYD ROC.

Mae'n debyg mai dyma yr un elfen o'r diwylliant sydd wedi datblygu mwyaf dros y ddegawd diwethaf. Bellach mae'r byd roc wedi datblygu ym mhob ystyr y gair o ran cerddoriaeth a threfniadaeth. Mae hefyd yn werth nodi ei fod yn elfen fwy cyfranogol na'r un arall o'n elfennau diwylliannol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei ddylanwad a'i boblogrwydd; mae'n ddiwylliant cyfranogol yn yr ystyr y gall bawb gyfrannu drwy ffurfio grwp, cynhyrchu ffansins neu gasetiau neu drefnu cyngherddau. Nid oes yn perthyn i'r byd roc unrhyw un o'r ffiniau elitaidd sy'n nodweddu agweddau eraill o'n diwylliant. Nodwn hefyd ei fod yn ddiwylliant llawer mwy gwleidyddol a bod cyngherddau/recordiau i uniaethu gyda'r Gymdeithas yn gyffredin. Mae hyn hefyd yn ategu yr angen a welwn i elfennau eraill o'n diwylliant i ddefnyddio'r gymdeithas fel cyfrwng diwylliannol.

Fodd bynnag, mae'r byd roc yn parhau yn dlawd, ac un o'r rhesymau mwyaf dros hyn, yw er gwaethaf ei boblogrwydd, ei fod wedi aros ar ymyl y diwylliant Cymraeg. Mae'n bur debyg mai dyma y diwylliant Cymraeg mwyaf poblogaidd ond erys y byd roc ar berifferi diwylliant ac felly oddi allan i ambarel nawdd Cyngor y Celfyddydau a chyrff nawdd eraill.

Cefnogwn alwadau am nawdd i'r byd roc ond mae hyn yn ddibynnol ar ddwy amod. Yn y lle cyntaf, byddai'r nawdd yma yn cael ei roi gan gyrff nawdd tuag at elfennau presennol o'r byd roc sydd angen eu datblygu. Deinameg y byd roc yw ei gyfranogrwydd, a buasai creu haen o fiwrocratiaeth i geisio newid y byd roc i rywbeth na all fyth fod, yn gam negyddol. Yn ail, ni ddylai'r nawdd yma gael ei ddefnyddio er mwyn ceisio prynu cefnogaeth wleidyddol. Dyna pan y gwrthwynebwn Gyngor Roc y mae'r Bwrdd Iaith yn rhan ohono. Ni all cwango gynnig unrhyw beth adeiladol i'r byd roc ac felly dylid sicrhau bod nawdd yn dod ynghlwm a chydnabod swyddogol o'n byd roc fel rhan ganolog o'n diwylliant.

## TELEDU.

Ers sefydlu S4C yn 1982 gwelwyd datblygiadau mawr, ond cryn nifer o feysydd y teimlwn y mae'n rhaid eu datblygu ymhellach, cyn y gall S4C gael ei weld yn wasanaeth darlledu cyflawn Cymraeg. Derbyniwn fod nifer o broblemau yn mynd i wynebu'r sianel o safbwynt ariannu hysbysebion ayb. ond dylid yn sicr anelu at y canlynol.

Dylid ehangu'r oriau darlledu presennol er mwyn denu'r gynulleidfa sydd ar hyn o bryd yn gwylio sianeli eraill. Nid yw glynu at oriau brig, ble mae'r gynulleidfa eisoes wedi ei setlo i batrwm gwylio ar sianelau eraill, yn mynd i ddenu'r gynulleidfa y mae S4C yn awyddus i'w denu.

Mae darpariaeth S4C ar gyfer ieuenctid wedi aros yn ei le ers yr wythdegau. Yr hyn mae'n rhaid ei gofio yw nad yw S4C wedi cael cyfle i ddatblygu gymaint a sianelau eraill ac felly mae atebolrwydd yn rhywbeth y mae'n rhaid i S4C ei sicrhau. O safbwynt ieuenctid mae angen mewnbwn cyson o'r hyn y mae pobl ifanc eisiau ei weld mewn rhaglenni gan gofio bod agweddau a diddordebau ieuenctid yn newid yn gyson felly y dylai'r ddarpariaeth adlewyrchu hynny.

Eisoes gwelwyd datganoli o wasanaeth S4C i Abertawe a Chaernarfon a theimlwn y dylai'r math yma o duedd barhau a chryfhau. Dim ond wrth ddod a gwasanaeth at at y gymuned gan roi cyfle iddynt gyfranogi y gall y gynulleidfa deimlo ei fod yn wasanaeth iddynt hwy.

Tra bod S4C yn datblygu erys y gynulleidfa ddi-Gymraeg i orfod derbyn y math o wasanaeth carpiog y bu'n rhaid i Gymry Cymraeg fyw arno tan sefydlu S4C. Cefnogwn unrhyw symudiad i sefydlu gwasanaeth perthnasol a chyfoes ar gyfer Cymry di-Gymraeg ond nodwn na ddylai hyn ddod ar draul unrhyw ddatblygu ar S4C.

Cydnabyddwn bod datblygiad teledu lloeren a chebl yn mynd i weddnewid byd teledu yn y ddegawd nesaf ac y bydd yn rhaid i ni fel cymdeithas ymateb i hynny'n fuan yn unol a'r canllawiau uchod.

Ers sefydlu S4C, mae Cymdeithas yr Iaith, a phobl Cymru wedi gorffwys ar eu rhwyfau yn y maes yma, ond gyda'r llywodraeth yn adolygu siarter y BBC, rhagwelwn y bydd brwydr yn codi ar sawl ffrynt i amddiffyn darlledu cyhoeddus. Byddwn ni yn ailgamu i ganol y frwydr gyda set newydd o bolisiau i bwysleisio cyfrifoldeb y sector darlledu cyhoeddus a gwrthwynebu y tueddiadau presennol lle mae datganoli wedi golygu mwy o entrepreneurs yn elwa'n fasnachol ar y gymuned. Rhaid ail ddatgan y dylai datganoli y gwasanaeth teledu a radio i'r gymuned fod o fewn y sector gyhoeddus.

Nodwn hefyd ein pryder fod gwasanaeth newyddion radio a theledu BBC yn parhau yn wasanaeth cyfieithu newyddion Lloegr i Gymru a galwn am sefydlu adran gref fydd yn rhoi i'r gymuned bersbectif Cymreig ar y byd. Yn yr ysbryd yma y croesawn y datblygiadau ble mae Cymru yn cydweithredu yn uniongyrchol, heb orfod mynd drwy Lundain, gyda gorsafoedd teledu eraill yn Ewrop.

Ein nod yn awr yw gosod yr uchod ar yr agenda wleidyddol yng Nghymru.

## CYNLLUNIO ECONOMAIDD MEWN CYMUNED RYDD.

### CYFLWYNIAD.

Un wedd ar yr argyfwng cymdeithasol, diwylliannol a moesol yn y byd cyfoes yw'r ffordd un-llygeidiog o edrych ar y byd. Mae hyn yn arbennig o wir ym maes economeg lle 'rydym wedi gweld datblygiad economeg sydd wedi ei ysgaru o foesoldeb ac sy'n ceisio ystyried materion economaidd fel pe buasent yn bodoli ar wahan i wleidyddiaeth, cymdeithas ac ecoleg. Twyll yw'r ffug-glyfrwch hwn; ymdrech i guddio'r goedwig y tu ol i'r goeden. Mae'n fodd ideolegol o gyfiawnhau ecsploitio pobloedd ac adnoddau'r blaned er budd canran fechan o gyfoethogion yn y Gogledd 'datblygiedig'.

Bydd yn rhaid i'r ecsploitio hwn ddod i ben; rhan o'r broses yw chwyldroi economeg. Ymysg rhai elfennau radical mae hyn eisioes ar y gweill. Mae ecolegwyr, ffeministiaid, sosialwyr a chenedlaetholwyr blaengar ar draws y byd yn cyfrannu i'r economeg wleidyddol newydd - economeg grwn a moesol ei natur. Yn y cyd-destun a'r ysbryd hwn yr edrychwn ar economeg ac economi Cymru a chynnig strategaeth ar gyfer cymunedau Cymru.

### Y CYD-DESTYN RHYNGWLADOL.

1. Mae'n afraid dweud, fod Cymru'n rhan o'r economi gyfalafol rhyngwladol ers rhai cannoedd o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae cyfalaf wedi ymestyn ei grafangau ar draws y byd gan greu un economi gyfalafol fydol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r broses yma o ledaenu'r economi gyfalafol wedi cyflymu. Mae ymdrechion rhai o wledydd y trydydd byd i ddatblygu mewn ffyrdd gwahanol yn cael eu llyffetheirio gan bolisiau y gwledydd datblygedig. Yn benodol yn ystod yr wythdegau, mae asiantau fel yr IMF a Banc y Byd wedi manteisio ar yr argyfwng dyledion yn y gwledydd tlotaf i'w clymu'n dynnach i economi gyfalafol y Gorllewin. Mae cwymp diweddar y gwledydd 'sosialaidd' wedi cynyddu'r pwysau i gydymffurfio. (Er gwaethaf eu gormes tuag at eu pobl eu hunain 'roedd y gwledydd yma yn cynnig cymorth i elfennau blaengar o fewn gwledydd eraill e.e. yr ANC, ac hefyd yn cynnig cymorth i wledydd oedd yn ceisio osgoi gorfod derbyn telerau anffafriol yr economi rhyngwladol e.e Tanzania, Nicaragua etc.) Mae'n bwysig nodi bod cydymffurfiaeth economaidd yn mynd law yn llaw a chydymffurfiaeth diwylliannol. Mae'r broses o greu un economi gyfalafol drawswladol ddi-ffin hefyd yn creu un diwylliant rhyngwladol sy'n dileu gwahaniaethau lleol a ystyrir fel rhwystr 'afresymegol' i'r farchnad 'rydd' (neu i fod yn fwy cywir, rhyddid cyfalaf). Gellir dweud bod yr un prosesau sy'n tanseilio'r Gymraeg yn dileu hunaniaeth ddiwylliannol ar draws y byd.

2. Yn rhyngwladol, y digwyddiad mwyaf arwyddocaol ers ysgrifennu'r Maniffesto diwethaf yw diwedd y Rhyfel Oer rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain (mae'r Rhyfel Oer rhwng y Gogledd diwydiannol a'r De tlawd yn parhau ac hyd yn oed yn dwyshau). Mae oblygiadau cwymp y drefn lled-Stalinaidd yn Nwyrain Ewrop yn ymestyn ymhellach na glan ddwyreinol yr Elbe. 'Roedd y Rhyfel

Oer yn rhewi cyfundrefnau, syniadau a mudiadau gwleidyddol yn y Gorllewin yn ogystal a'r Dwyrain. Mae diwedd y Rhyfel honno felly yn cynyddu'r posibiliadau o newid ar hyd ac ar led cyfandir Ewrop. Wrth gwrs ni fydd y newidiadau yma o anghenrhaid yn rai positif e.e. gweler twf yr asgell dde ffasgaidd, ond mae'r cyfle yno ar gyfer sicrhau newidiadau blaengar os ydym yn fodlon ymdrechu a gweithredu.

3. Mae'r hinsawdd ryngwladol yn effeithio arnom mewn ffordd arall yn ogystal. Mae'n wybyddus fod yr economi rhyngwladol wedi ei rannu rhwng y 'craidd' ar 'cyrion', gyda'r craidd yn ecsploitio'r cyrion llai datblygiedig. Ond mae hefyd yn bwysig nodi fod yna broses ar waith o greu cyrion, h.y. grwpiau ac ardaloedd ymylol, o fewn gwledydd y craidd. Gwelir hyn yn boenus o amlwg yn mhresennoldeb yr 'underclass' ar strydoedd ein dinasoedd ond mae hefyd yn bodoli ar ffurf llai gweladwy, efallai mewn pocedi o dlodi yn hen ardaloedd diwydiannol a chefn gwlad Cymru.

4. Dros y ddegawd a aeth heibio cynyddodd y camddefnydd o'r amgylchedd ar yr un pryd ag y daeth mwy o bobl yn ymwybodol o'r angen am economeg newydd i warchod ecoleg y blaned. Mae'n rhaid i gynllunio economaidd yng Nghymru fod ar gyfer datblygiad cynnaladwy yn ysbryd y slogan 'meddyliwch yn fyd-eang, gweithredwch yn lleol'.

5. Yn ystod yr 80au, ceiswyd cyflyru trigolion gwledydd Prydain i gredu fod ehangu'r economi cyfalafol a rhoi rhwydd hynt i rymoedd y farchnad yn fodd o 'gynyddu rhyddid yr unigolyn' a 'ehangu dewis'. Yr ydym ni yn CYIG yn tystio bod honiad yma'n gwbl gyfeiliornus. Do fe ehangwyd dewis yr haen mwyaf breintiedig mewn cymdeithas ond gwnaed hyn ar drael trwch y boblogaeth. Yn ystod yr 80au, yr hyn a welsom oedd tanselio democratiaeth a hunaniaeth.

**ECONOMI CYMRU.**

Trawsnewidwyd economi Cymru yn y chwarter canrif olaf. Chwalwyd sylfaeni economaidd ein cymunedau glofaol, diwydiannol ac amaethyddol. Collwyd miloedd o swyddi a gwelodd gymunedau drwy Gymru allfudo a mewnfudo ar raddfa enfawr. Yn ogystal, newidiwyd natur cyflogaeth yn sylfaenol. Gwelwyd mwy a mwy o swyddi rhan-amser yn cael eu creu; swyddi sydd o'i natur yn ansicr. I gannoedd o filoedd o'n pobl mae'r dirwasgiad hir - sydd wedi parhau mwy neu lai yn ddi-dor ers canol y 70au - wedi golygu tlodi cymharol a phryder economaidd cynyddol.

Gwellodd stad bersonol ychydig o ferched, ond i'r helyw o ferched Cymru ni fu newid yn natur, statws a chyflog eu gwaith y tu allan i'r cartref. I lawer ychwanegwyd at eu beichiau domestig oherwydd dirywiad yn y gwasanaethau cymdeithasol, addysgol a meddygol a'r cynydd cyffredinol mewn diweithdra.

Yng ngwyneb cyflwr economi Cymru, beth fu ymateb y wladwriaeth Brydeinig? Ers 1979 clywyd honiadau cyson y byddai 'enterprise culture' yn sicrhau datblygiad economaidd yn ein cymunedau. 'Rydym yn ymwrthod a'r syniadaeth yma gan ei fod yn creu cymunedau dibynnol. Yn yr achos yma mae cymunedau yn ddibynnol ar yr entrepreneur am waredigaeth h.y. y ddelwedd (a'r myth) yw y bydd

unigolion mentrus yn achub cymdeithas.

Mae nifer o gyrff cyhoeddus yn honni ymwneud a datblygiad economaidd cymunedau ac mae'n werth dweud ychydig am eu rol.

**Y CWANGOS. (Yr Awdurdod Datblygu, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig etc.)**

Mae rhain yn chwarae sawl rol:

**ECONOMAIDD.**

Maent yn hwyluso gwaith cyfalaf drwy gyflenwi gwahanol anghenion e.e. 'infrastructure', megis ffatrioedd parod, a buddsoddiadau

Maent yn glanhau'r dinistr amgylchfydol y mae cyfalaf wedi ei adael ar ei ol.

**IDEOLEG.**

Maent yn rhoi'r ymddangosiad o gynllunio economaidd i drigolion ardaloedd llai breintiedig. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r cyrff yma wedi rhoi mwy o bwyslais rhethregol ar y gymuned gan siarad yn nhermau 'gwrando ar y gymuned', 'cynnig opsiynau i'r gymuned' etc. Hyd yma nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth fod yna unrhyw sylwedd i'w honiadau ac yn wir, yn sgil record trychinebus y cyrff yma ers eu sefydlu, 'rydym yn amheus iawn os y gwelir newid real yn eu hymddygiad. Mae strwythyr anemocrataidd y cwangos yn cael ei danlinellu gan y penodiadau amlwg-wleidyddol y mae'r Ceidwadwyr wedi eu gwneud i swyddi pwysig yn y cwangos. Byddai rhestru'r holl achosion o'r math yma o apwyntiadau yn syrffedus ond gweler, fel enghreifftiau, penodiad y Ceidwadwr amlwg Gwyn Jones i Gadeiryddiaeth yr Awdurdod Datblygu (heb son am ei gadeiryddiaeth o fwrdd y BBC a'i aelodaeth o fwrdd S4C) a phenodiad y cyn ymgeisydd ceidwadol, Geoffrey Inkin, yn Gadeirydd Awdurdod Datblygu Bae Caerdydd ac Awdurdod Tir Cymru. Mae'r math yma o 'jeri-mandro' hollol ddigywilydd a llwgr yn milwrio yn erbyn atebolrwydd cymunedol a sesitifrwydd i anghenion lleol. Yn sylfaenol holl bwrpas y cwangos yma yw cynnal cyfalaf, nid cymuned.

**LLYWODRAETH LEOL.**

Mae cynghorau sir a chynghorau dosbarth wedi datblygu polisiau cynllunio economaidd ond, yn anffodus, nid yw'r rhain wedi bod fawr gwell na pholisiau'r cwangos h.y. nid ydynt yn fwy atebol na pherthnasol. Gwaetha'r modd, mae'n ymddangos mai puteinio eu hardaloedd i wyr busnes o'r tu allan yw eu prif nod.

Dylid nodi fod llywodraeth leol mewn rhai ardaloedd e.e. y GLC, wedi ceisio dilyn polisiau o gynllunio economaidd creadigol ac adeiladol ond cawsant eu sbaddu gan y llywodraeth ganolog. Yn wir, mae'r llywodraeth ganolog wedi gwahardd cynghorau rhag sefydlu 'sheltered markets' na datblygu busnesau proffidiol.

Yn achos y cwangos a llywodraeth leol, mae eu polisiau economaidd yn hyrwyddo dibynniaeth cymunedau. Tra bod y ffydd mewn 'enterprise culture' yn gwneud pobl yn ddibynnol ar friwsion o fwrdd y cyfalafwr, mae polisiau'r cyrff cyhoeddus yn gwneud cymunedau yr un mor ddibynnol ar friwsion o fwrdd y wladwriaeth.

Nodwn nad ydym yn rhannu y tueddiad sy'n bod, yn enwedig ymysg cefnogwyr y Blaid Lafur, i ramantu ynglyn ag oes aur y wladwriaeth les. Er ei bod yn bwysig i amddiffyn yr hyn sy'n weddill ohono rhag ymosodiadau pellach gan y Toriaid, mae'n bwysig nodi fod holl feddylfryd 'welfarism' hefyd wedi amddifadu pobl o reolaeth dros eu bywydau a'u cymunedau gan ychwanegu at ddibynniaeth ac ymddieithriad.

## GWELEDIGAETH CYMDEITHAS YR IAITH.

Ein man cychwyn yw bod yn rhaid gweld datblygiadau economaidd yn eu cyd-destun cymdeithasol cyflawn.

Yn y gorffennol 'rydym wedi tueddu i ymateb yn amddiffynol yn y maes yma h.y. gwrthwynebu datblygiadau andwyol e.e. amddiffyn cymunedau glofaol, gwrthwynebu marinas et al.

Ein gobaith a'n bwriad yn y ddegawd nesaf yw symud ymlaen o hyn gan geisio gosod yr agenda yn ogystal ac ymateb i eraill. Yn y jargon, bwriadwn fod yn pro active yn ogystal a reactive. Yn hollol groes i'r eilun-addoliaeth o rymoedd y farchnad rydd a nodweddodd yr 80au mae CYIG yn cynnig ei weledigaeth wleidyddol ei hun.

1. Yn ganolog i'n syniadaeth, credwn fod yn rhaid creu cyfundrefn wleidyddol lle y gall unigolion wneud dewisiadau real drostynt eu hunain yn hytrach na bod yn ysglyfaeth i rymoedd y farchnad. Marchnad sy'n ymddangosiadol rydd ond sydd mewn realiti yn cyfyngu dewis i faterion dibwys yn unig e.e. Daz neu Radion, dol neu gweithio'n rhan amser am gyflog gwael etc.

2. Credwn fod unigolion rhydd dim ond yn bosibl o fewn Cymunedau Rhydd. Nid ydym yn derbyn y fersiwn ceidwadol o ryddid yr unigolyn. Fwyfwy golyga hynny ar wahanrwydd unigolion cystadleuol mewn cymdeithas sy'n gynyddol amhersonol ac ymddieithriol.

Dylid nodi mai nid at bentrefi a chymunedau gwledig yn unig y cyfeiriwn atynt yma. Credwn fod ein strategaethau cymunedol nid yn unig yn addas i ardaloedd gwledig ond hefyd i bentrefi diwydiannol, trefi bychain a chanolig ac hefyd cymunedau mewn ardaloedd trefol mawr. Mae creu cymunedau rhydd yn fodd o sicrhau safon byw a safon bywyd gwell i bobl Cymru lle bynnag y bont yn byw.

3. Cymuned rydd yw cymuned sy'n rheoli ei ffawd economaidd ei hun yn hytrach na chael ei rheoli gan yr economi. Yn draddodiadol, bu cymunedau Cymreig ar drugaredd ffawd cyfalaf.

4. Nodwn nad yw cymuned rydd o'r math yr ydym yn son amdano yn bodoli. Nid yw CYIG yn rhamantu ynglyn a'r gorffennol. Nid ein nod yw gosod math o fur amddiffynnol o amgylch ein cymunedau a'i cadw megis formaldehyde rownd Llygoden Ffrengig mewn labordy! Rhaid sylweddoli, yn ogystal ag elfennau iach, 'roedd nifer o dueddiadau cwbl anerbynniol yn bodoli oddi mewn i'n cymunedau traddodiadol e.e. rhaniadau dosbarth, diffyg hawliau i ferched a hoywon a lesbiaid etc. h.y. ceidwadaeth o bob math! Ein nod yw ceisio datblygu'r elfennau gorau ac ymladd i ddileu'r tueddiadau adweithiol gan greu cymunedau hunan- ymwybodol, eangfrydig a

hyderus.

5. Ni ellir pwysleisio gormod bod yn rhaid i unrhyw ddatblygiad cymunedol fod yn ddatblygiad sy'n gynnaladwy yn amgylchfydol. Diffinwyd hyn gan Gomisiwn Brundtland yn 1987 fel strategaeth sy'n bodloni anghenion y presennol heb danseilio gallu cenedlaethau y dyfodol i ddiwallu eu anghenion hwythau. Golyga hyn hebgor ennillion tymor byr waeth pa mor ddeniadol e.e. cynnydd mewn cyflogaeth etc., os ydynt yn peryglu dyfodol tymor hir y gymuned/ardal. Fel y gwyddom, mae'r wasgfa economaidd sy'n pwyso ar ein cymunedau wedi creu'r sefyllfa lle yr ydym wedi croesawu gwaith sy'n andwyol i'r amgylchfyd. Rhaid creu'r sefyllfa lle nad ydyw cymunedau yn gorfod gwneud y fath ddewisiadau h.y. rhwng difodiant tymor byr oherwydd diffyg cyflogaeth neu difodiant hir a phoenus oherwydd dirywiad amgylchfydol.


6. Mae 'datblygiad cymunedol' yn cwmpasu sawl maes:

**Yr Amgylchfyd**
**Mudo**
**Statws**
**Cynllunio-Economaidd**
**Addysg**
**Tai(Deddf Eiddo)**
**Rhyddid i'r ifanc**
**Llywodraeth Leol**
**Rhyddid i'r ferch,**
**hoywon a lesbiaid a.y.b**

Mae angen edrych ar y meysydd hyn yn eu tro ond pwysleisiwn y cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd. Wrth ganolbwyntio ar ddatblygiad cymunedau yn eu cyfanrwydd mae'r ffiniau traddodiadol rhwng meysydd megis yr amgylchfyd, addysg, amaeth a chynllunio economaidd yn datgymalu.

Nod CYIG yw cymunedau sy'n economaidd hyderus a hunan-ddibynnol: cymunedau sy'n gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Rol llywodraeth a chyrff cyhoeddus yw i ddarparu ar gyfer a gwasanaethu'r gymuned ac nid tra arglwyddiaethu drosti. Mae'n rhaid rhoi cyfrifoldeb i bobl benderfynu eu ffawd. Yn groes i agwedd y gorffennol, hawliwn mai'r unig ffordd i sicrhau datblygiad economaidd iach yw i ymddiried mewn cymunedau. Nid oes rhyddid i'r unigolyn, y gymuned na'r genedl mewn sustem sydd yn ein gadael yn ysglyfaeth i'r farchnad, nac ychwaith mewn sustem lle nas gwrandewir ar leisiau unigolion a chymunedau gan fiwrocratiaid a gwleidyddion sydd am gynllunio a chyfarwyddo popeth o'r canol. Yn hytrach, rhaid dod a'r grym i gynllunio eu dyfodol i ddwylo'r bobl yn eu cymunedau.

Dyma'r nod, ond beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?



## RHEOLAETH DDEMOCRATAIDD GYMUNEDOL DROS GYFALAF

### DEMOCRATEIDDIO CYFALAF.

Wrth alw am reolaeth ddemocrataidd gymunedol dros gyfalaf nodwn nad yw hon yn strategaeth 'all or nothing'(ys dywed y Sais!). Bu tueddiad ymysg rhai radicaliaid i gredu mai dim ond trwy newid llwyr y gellir sicrhau gwelliannau a bod unrhyw fan- ddiwygiadau yn ddiwerth neu hyd yn oed yn ddatblygiad negyddol (gan eu bod yn cuddio gwir natur y drefn). Ymysg eraill, bu tueddiad i anobeithio am y posibiliadau o newid pell-gyrhaeddol a bodloni ar fan-ddiwygiadau fel nod-ynddynt-eu-hunain. Yng Nghymdeithas yr Iaith sylweddolwn y bydd yn rhaid chwyldroi y drefn os ydym am sicrhau dyfodol i'n hiaith a'n cymunedau (Rhaid i BOPETH newid) Ond serch hynny, credwn fod modd sicrhau diwygiadau a gwelliannau ystyrlon a positif o fewn y gyfundrefn bresennol a'i bod yn ddyletswydd arnom i ymgyrchu i'w sicrhau tra, ar yr un pryd, gyngrheirio gydag eraill er mwyn sicrhau fod popeth yn newid.

Sylweddolwn nad ydi'r berthynas rhwng CYFALAF a CHYMUNED yn ddu a gwyn. Nid yw eu buddiannau o anghenraid yn llwyr groes i'w gilydd. Mae'n rhaid dadansoddi yn ofalus y gwahanol fathau o gyfalaf a llunio strategau a dulliau o weithredu sy'n sensitif i'r gwahaniaethau rhyngddynt. Mae sawl ffurf ar gyfalaf.

### 1. Cyfalaf Trawswladol.

a) Yn gyntaf mae'n rhaid sylweddoli mai cyfyngedig iawn yw dylanwad UNRHYW berson, cymuned neu hyd yn oed wladwriaeth ar gwmniau fel hyn. O ganlyniad pwysleisiwn yr angen am gysylltiadau rhyngwladol gydag undebau, mudiadau a chyrff blaengar eraill i geisio dwyn pwysau arnynt. Ond mae modd dwyn rhywfaint o bwysau yn fwy lleol a dylid achub ar bob cyfle i wneud hynny. Dyma fraslun o rai camau y gellid eu cymryd...

a) Mae angen pwysau ar y cwmniau i fabwysiadu polisi iaith gynhwysfawr.

b) Mae angen sicrhau pwysau rhyng a thraws-gymunedol ar gwmniau i gydnabod undeb o fewn y gwaith gan wrthwynebu y tueddiad cynyddol i wahardd trefniadaeth undebol o fewn ffatrioedd. Pwysleisiwn ein bod yn gweld parodrwydd i gydnabod undeb fel maen prawf o holl agwedd cwmni tuag at y gymuned a'r gweithlu. Mae gweithlu heb ei drefnu yn DDIBYNNOL ar ewyllys da y rheolwyr ac felly mewn sefyllfa gwan a bregus. Nodwn hefyd bwysigrwydd datblygiad undebaeth rhyngwladol yng nghyd-destun cwmniau traws-wladol.

c) Mae modd cael rhywfaint o reolaeth ar gwmniau traws-wladol ar lefel Ewropeaidd. Yn hyn o beth 'rydym yn cefnogi ymdrechion y Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno 'dimensiwn cymdeithasol' i'r trafodaethau ar integreiddio a gresynwn at agwedd y wladwriaeth Brydeinig tuag at hyn. (e.e. ei gwrthwynebiad i'r 'bennod gymdeithasol').

ch) Mae'n holl bwysig sicrhau fod cwmniau yn parchu'r amgylchfyd. Bu tueddiad cyson yng Nghymru i groesawu unrhyw 'ddatblygiad' economaidd beth bynnag yw ei effaith amgylchfydol: hyn wrth gwrs yn

adlewyrchu sefyllfa economaidd eilradd a bregus ein gwlad a'n pobl. Bellach mae effeithiau trychinebus y math yma o feddylfryd yn boenus o amlwg ymhob cwr o Gymru. Ond dim ond trwy sicrhau pwysau ar bob lefel o gymdeithas a llywodraeth y mae modd sirhau nad yw budd tymor byr yn drech nag ystyriaethau ehangach, tymor hir.

d) Mae tueddiad amlwg ymysg cwmniau traws-wladol i gyflogi merched ar gyflogau isel. Rhaid sicrhau nad siarad gwag yw 'cyfle cyfartal'. Geilw hyn am gydweithrediad rhwng y gymuned a phob lefel o lywodraeth. Unwaith eto, nodwn ein bod yn ystyried agwedd cwmniau tuag at ferched o fewn y gweithlu fel maen prawf o'i holl agwedd tuag at y gymuned.

dd) Gellir pwyso ar gwmniau i ddatblygu perthynas glos gyda'u cymunedau lleol. Gall hyn ymestyn o roi cymorth ariannol i ysgolion meithrin, i noddi'r tim peldreod lleol!

e) Mae dyletswydd amlwg ar y gymuned, mewn cydweithrediad hefo gwahanol lefelau o lywodraeth a chyrff cyhoedddus e.e. WDA etc., i sicrhau nad yw cwmniau traws-wladol yn gwahaniethu yn erbyn grwpiau arbennig o fewn y gymuned e.e. lesbiaid a hoywon, pobl anabl etc.

Nodwn hefyd ymgyrchoedd gan wahanol fudiadau i ddwyn pwysau ar gwmniau rhyngwladol drwy drefnu fod treulwyr yn ymwrthod a nwyddau cwmniau neu gwladwriaethau sy'n ymddwyn mewn ffyrdd annerbyniol. Mae hyn wrth gwrs, nid yn unig yn fodd i roi tolc yn elw'r cwmniau, ond hefyd yn ffordd effeithiol o gynyddu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd. Credwn y gallai hwn fod yn dacteg addas i'r Gymdeithas ei fabwysiadu.

**2. Monopoliau Preifat Prydeinig.**

Mae dwr, nwy, trydan, ac ati yn fonopoliau naturiol ac o ganlyniad ni ddylent fod mewn dwylo preifat. Ein nod yw eu gweld yn ol mewn dwylo cyhoeddus ond NID yn y ffurf fiwrocrataidd fel yr oeddynt cyn iddynt gael eu preifateiddio. Credwn fod angen eu democrateiddio. Mae hyn yn cwmpasu sawl agwedd. Mae treulwyr a'r gweithwyr a'u buddiannau yn ogystal a gwahanol lefelau o lywodraeth. Hefyd mae ystyriaethau amgylchfydol/cadwriaethol pwysig ynghlwm a gwaith y monopoliau. Dylai byrddau rheoli gynrychioli'r holl fuddiannau yma yn hytrach na budd ariannol y cyfranddalwyr fel yn y sefyllfa bresennol. Credwn fod angen CYMUNEDOLI yn hytrach na GWLADOLI y diwydiannau yma.

Yn y tymor byr, mae angen dwyn pwysau ar y monopoliau preifat presennol er mwyn eu gwneud yn fwy atebol. Mae llawer o'r pwyntiau yn yr adran flaenorol yn berthnasol a nodwn ei bod yn haws dwyn pwysau ar fonopoliau preifat na'r cwmniau traws-wladol gan fod mwy o ddulliau ymgyrchu ar gael i'r gymuned effeithio arnynt hwy.

## STATWS

## AMGYLCHEDD

## GWEITHWYR

## TREULWYR

**3. Monopoliau Cyhoeddus.**

Credwn y dylid cadw'r rhai sy'n weddill o fewn y sector gyhoeddus ond bod angen eu cymunedoli a'i democrateiddio.

Mae angen ehangu swyddogaeth cyrff megis British Coal Enterprises a British Steel Enterprises i fod yn asiantaethau cenedlaethol, gan dargedu ardaloedd sydd yn dioddef diweithdra trwm oherwydd newidiadau strwythurol yn natur cyflogaeth.

**4. Cwmniau Preifat Rhanbarthol.**

Mae llawer o'r pwyntiau sy'n berthnasol i'r adran ar gyfalaf trawswladol yn wir gyda chwmniau preifat 'cenedlaethol' neu ranbarthol. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau dylai fod yn haws dwyn pwysau ar y cwmniau hyn.

**5. Cwmniau Preifat Lleol.**

Cwmniau cymharol fach neu fasnachwyr unigol yw'r rhain. Mae modd gwneud llawer yn lleol i ddylanwadu ar eu polisiau iaith, amgylchedd, hyfforddi a cyflogaeth ac ati er mwyn eu gwneud yn fwy atebol i'r gymuned.

**6. Cyfalaf Gymunedol.**

Mae amrywiaeth o fentrau cymunedol wedi eu cychwyn yng Nghymru megis cwmni'r Fic yn Llithfaen, Antur Aelhaearn, Antur Teifi, Menter Hiraethog, Antur Dwyryd ac yn y blaen. Yn yr achosion lle bo cyfalaf breifat yn cael ei ddefnyddio i fod o fudd uniongyrchol i'r gymuned mae hyn yn cyd-redeg a'n nod, ac felly yn beth i'w gymeradwyo. Gall y math yma o ymgyrch lled-gydweithredol fod yn fuddiol i gadw siop, swyddfa bost neu dafarn yn agored a gall problemau godi wrth edrych ar y mentrau hyn fel mentrau busnes pur.
Mewn ardaloedd gwledig felly, rhaid edrych ar fenter megis siop neu swyddfa bost fel gwasanaeth yn hytrach na fel busnes. Credwn fod sawl ymgais i redeg siop fel menter gydweithredol wedi methu am ddau reswm, sef:

a) bod costau cyfalaf wedi bod yn rhy drwm;

b) bod disgwyliad y byddai busnes o'r fath yn cynnal teulu.

Lle bo'r sefyllfa'n codi, pan fo Swyddfa Bost neu unig siop bentref

yn dod ar werth, dylai grant cyfalaf fod ar gael i alluogi prynu'r fenter er budd y gymuned. Byddai hyn yn tynnu'r baich cyfalaf ac yn galluogi'r fenter i ddechrau o'r newydd heb roi baich ar y tenantiaid newydd. Byddai'r tenant yn rhedeg y busnes er elw iddo'i hun, dan oruchwyliaeth y pwyllgor lleol a fyddai'n cadw grym dros rai agweddau polisi. Dylid gweld menter o'r fath fel modd i atodi cyflog teulu yn hytrach na bod yn brif ffynhonnell incwm. Mae'r enghraifft uchod yn dangos yn eglur ddwy elfen bwysig o'n strategaeth gymunedol, sef:

a) y gymuned yn cymryd y grym yn ei dwylo ei hunain;

b) diogelu gwasanaeth lleol.

**7. Cyfalaf Gweithwyr h.y. mentrau gyd-weithredol.**

Yn rhy aml yn y gorffennol, mae mentrau cydweithredol wedi codi o lwch busnes sydd eisioes wedi bod yn fethiant, ac sy'n sicr o fethu eto, ac yn amlach na pheidio, yr unig nod yw gadw pobl mewn gwaith. Ar y llaw arall, mae mentrau cydweithredol Mondragon yng Ngwlad y Basg wedi dangos mai dim ond wrth edrych am yr angen am y nwydd neu'r gwasanaeth, gan gynllunio at anghenion y farchnad, y gellir cael menter i ffynnu, a thrwy hyn sicrhau bod swyddi ar gael i'r gweithwyr. Mae'r sustem hon, wrth gwrs, yn gweithredu o fewn y sustem gyfalafol, ond heb ecsplotio'r gweithwyr a heb gyfalafwyr yn eistedd yn y swyddfa uchaf yn magu bloneg ar draul eraill.

Yr elfennau hanfodol felly mewn mentrau cydweithredol yw:

a) gwasanaeth neu nwydd y gellid ei werthu yn gystadleuol yn y farchnad ac sy'n creu neu yn ateb galw go iawn;

b) sicrhau bod y gwaith marchnata wedi ei wneud yn drylwyr fel bod y cwsmeriaid yn ymwybodol o'r nwydd neu'r gwasanaeth;

c) sicrhau fod yr ochr dechnegol o'r fenter yn gweithio'n iawn, fel nad oes problemau cynhyrchu - mae hyn wrth gwrs yn golygu bod y staff hefyd wedi eu hyfforddi yn drylwyr;

ch) sicrhau bod rheolaeth dda ar y modd y gweinyddir y fenter ariannol.

Yr hyn sydd wedi ei ddangos yn glir o lwyddiant mentrau cydweithredol Gwlad y Basg oedd bod angen hyfforddiant mewn llu o wahanol sgiliau, bod angen banc datblygu sydd a'r nod pendant o ddatblygu mentrau cydweithredol a bod angen cefnogaeth arbenigol a gweinyddol i sefydlu'r diwydiannau. Wrth feddwl am fentrau felly, rhaid anghofio am grefftau Cymreig a gwaith llaw, ond yn hytrach nwyddau a gwasanaethau y mae pobl eu hangen go iawn.



**CYLLID.**

**Cyllid Cyhoeddus.**

Credwn bod angen gwyrdroi y gyfundrefn gyllid cyhoeddus yn llwyr. Mae trethiant e.e. treth incwm, yn cael ei gasglu'n lleol yn barod. Ond ar hyn o bryd mae'r arian yn cael ei drosglwyddo'n syth i'r trysorlys gyda chyfran ohono'n cael ei drosglwyddo'n ol i'r ardal yn ddiweddarach. Dylid gwyrdroi hyn drwy gadw cyfran sylweddol yn y gymuned leol a throsglwyddo cyfran arall i'r canol, gyda'r gyfran yma i ddibynnu ar gyfoeth yr ardal dan sylw. Byddai hyn yn fodd i leihau ychydig ar ddibynniaeth. Uno treth incwm a yswiriant cenedlaethol? Treth Incwm Lleol yn lle'r 'Council Tax'? Pwy sydd i bennu lefel y Treth Incwm?

Mae angen rhyw fath o reolaeth gymunedol dros y 'business rate' gyda'r ardaloedd tlotaf yn cael cadw'r holl swm sy'n cael ei godi'n lleol a'r ardaloedd cyfoethocaf yn dargyfeirio cyfran o'u harian i'r ardaloedd yma hefyd. Dylai cyfran o'r treth ar elw aros yn y gymuned. Byddai hyn oll yn lleihau dibynniaeth cymunedau ar y llywodraeth ganol. Hefyd gellir meddwl amdano yn nhermau YSWIRIANT GYMUNEDOL: mae'r arian sy'n dod i'r gymuned yn fath o yswiriant ar gyfer y dydd pan fydd y cwmniau yn cau/diswyddo staff/symud i ardal arall etc.

Gwelwn yn ddiamau bod angen sefydlu banc cenedlaethol Cymreig i ddarparu cefnogaeth, arbenigedd ac yn bennaf, cyllid, ar raddfeydd llog isel, i fentrau cydweithredol.

O reidrwydd, gan na fyddai'r banc yma yn gallu rhoi difidend uchel, rhaid fydd ei sybsideiddio o ffynonellau Ewropeaidd ac o'r Trysorlys Prydeinig. Yn ddelfrydol, dylai fod banciau rhanbarthol o'r math yma ar gyfer pob rhanbarth o'r Gymuned Ewropeaidd. Dylid edrych ar y modd y gellid defnyddio arian buddsoddi mewn ffyrdd mwy effeithiol. Yn benodol, rhaid ystyried polisiau buddsoddi y cronfeydd pensiwn mewn llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus. Dim ond cyfran fechan iawn o'r arian yma sy'n aros yng Nghymru, a phan sefydlir banc rhanbarthol Cymreig, dylid ei gwneud yn orfodol i gronfeydd pensiwn, megis un Gwynedd, fuddsoddi o leiaf 55% o'u cyfalaf yn y Banc Cymreig. Mewn achosion diwydiannau preifat gyda chronfa bensiwn, dylid sicrhau bod yr un gyfran o'r arian a fuddsoddir ar ran gweithwyr Cymru hefyd yn cael ei fuddsoddi yn y Banc Cymreig. Mae hyn, wrth gwrs, yn fwy na sybsideiddio mentrau sydd o fudd i'r gymuned. Mae hefyd yn ffurf ar yswiriant i gadw cyfalaf ar gael pe ddigwyddai diwydiannwr preifat fethu, a thaflu ei weithwyr ar y clwt. O leiaf dan y drefn hon, byddai arian ar gael i sefydlu mentrau newydd i gymryd lle y rhai a wnaed yn segur.

**Y Gymuned a Democratiaeth.**

Efallai mai prif nodwedd gwleidyddol yr 80au ym Mhrydain oedd y canoli cynyddol ar rym i ddwylo'r llywodraeth 'ganol'. Pryderwn y bydd yr holl newidiadau llywodraethol sydd yn yr arfaeth ar lefel Ewrop, y Wladwriaeth Brydeinig, a llywodraeth leol yn atgyfnerthu'r broses yma o dynnu grym o'r gymuned. Ond, serch hynny, mae'r newidiadau yma yn gyfle i gyflwyno ein gweledigaeth ynglyn a'r math o strwythur

gwleidyddol a fyddai'n arwain at ymreolaeth cymunedol gan greu democratiaeth gyfranogol a fyddai'n meithrin unigolion a chymunedau hunan hyderus a llewyrchus. Cydnabyddwn mai tameidiog ac anghyflawn yw'r awgrymiadau a gynigiwn yma; braslun i'w addasu a'i ddiwygio yn hytrach na darlun cyflawn.

Trwy'r adran Cynllunio Economaidd 'rydym wedi pwysleisio fod yn rhaid gwedd newid y berthynas rhwng y llywodraeth wladwriaethol ar un llaw, ac unigolion o fewn eu cymunedau ar y llall a bod yn rhaid creu sefyllfa lle mae'r llywodraeth yn gwasanaethu'r gymuned yn hytrach na thra-arglwyddiaethu drosto. Wrth gwrs, nid yw'r weledigaeth yma wedi ei gyfyngu i Gymdeithas yr Iaith; mae hyd yn oed y Blaid Lafur yn ei rethreg etholiadol yn galw am lywodraeth sy'n rhoi grym yn nhwylo'r gymuned (gweler Kinnock ac 'enabling government etc.). Y gwahaniaeth sylfaenol yw ein bod yn sylweddoli na ellir sicrhau hyn trwy ddiwygio y strwythurau a chyfundrefnau llywodraethol sydd eisioes yn bodoli. Mae'r union strwythurau hyn wedi eu creu er mwyn canoli grym: er mwyn cynyddu rheolaeth y wladwriaeth. Naif yw credu y gellir newid hyn drwy fan ddiwygiadau. Hyd yn oed os yw bwriadau y sawl sydd - yn swyddogol beth bynnag - yn dal awenau grym h.y. y gwleidyddion, yn rhai anrhydeddus, mae'r holl gyfundrefn weinyddol a llywodraethol yn milwrio yn erbyn gwir atebolrwydd gymunedol a democratiaeth leol gyfranogol. Yn hytrach, er mwyn sicrhau gweddnewidiad y berthynas rhwng y llywodraeth a'r gymuned, mae angen chwyldro pell-gyrhaeddol yng ngweinyddiad ein gwlad.

Ond beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol? Golyga bod angen newid y cysyniad o sofraniaeth yn sylfaenol. Ym Mhrydain, y llywodraeth ganolog yn San Steffan sy'n sofran gyda'r llywodraeth honno yn ildio'r hawl i wneud penderfyniadau i lawr i lywodraeth leol ac i fyny i'r lefel rhyng-lywodraethol yn Ewrop fel y maent yn dewis (ac fel y gwyddom, maent wedi diddymu'r hawl yma yn fympwyol e.e. yn achos y GLC).

Ein cred ni yw y dylid gwneud y gymuned leol yn lefel sylfaenol llywodraeth yn hytrach na'r hyn a elwir yn 'wladwriaeth-genedlaethol'. Dylai haenau uwch fodoli er mwyn hwyluso cydweithredu rhyng-gymunedol neu fel fforwm i gymodi rhwng gwahanol gymunedau. Golyga hyn bod y cysyniad o sofraniaeth yn dod yn un llawer mwy hyblyg: byddai sofraniaeth yn bodoli ar sawl gwahanol lefel o fewn y sustem ond y gymuned leol fyddai'n cael y gair olaf a byddai'r wladwriaeth ganolog fel yr ydym yn ei adnabod ym Mhrydain yn diflannu. Yn lle'r gyfundrefn bresennol sydd yn tueddu i gadarnhau'r sefyllfa o 'treched treisied' o fewn cymdeithas ac yn rhyngwladol, byddwn yn creu cyfundrefn sy'n llawer mwy sensitif i anghenion lleol a byd-eang; cyfundrefn sy'n annog cymod a chydweithredu.

Efallai fod y weledigaeth yma yn ymddangos yn un cwbl afrelistig ond mae lle i gredu ei fod yn gydnaws a datblygiadau ar y llwyfan gwleidyddol Ewropeaidd. Mae'r egwyddor o 'subsidiarity' yn golygu gwneud popeth ar y lefel isaf sy'n gydnaws ac effeithiolrwydd ac atebolrwydd. Fel yr ydym wedi dadlau eisioes, nid lefel y llywodraeth ganolog yw'r lefel mwyaf

addas i wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau ond yn hytrach lefel y gymuned. Gall y ddadl ar 'subsidiarity' sy'n sicr o barhau dros y blynyddoedd nesaf ynghyd a'r broses o ad-drefnu llywodraeth leol gynnig cyfle i CYIG gyflwyno ein gweledigaeth ni o'r gyfundrefn lywodraethol yng Nghymru ac Ewrop. Does dim amheuaeth fod creu democratiaeth gyfranogol drwy lunio cyfundrefn lywodraethol newydd yn gynsail cwbl angenrheidiol i barhad tymor hir cymunedau Cymreig a'r iaith Gymraeg.

## CASGLIAD.

Rhaid i economeg newid yn ogystal a'r economi. Gall perspectif a phrofiad gwleidyddol Cymreig gyfrannu at yr economeg newydd - crwn, moesol, 'benywaidd' ac ecolegol.

I ddadansoddi seiliau economaidd cymunedau Cymru rhaid meddwl ar sawl lefel; y cyd-destun rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, rol llywodraeth a'r ystyriaethau dosbarth, rhyw ac amgylcheddol yn ogystal a'r oblygiadau i'r Gymraeg ac i fywyd cymunedol. Mae ein gweledigaeth yn glir, dim ond mewn cymunedau rhydd y gallwn fod yn unigolion rhydd. I gymuned fod yn rhydd rhaid iddi reoli datblygiad ei heconomi. Mae hyn yn golygu rheolaeth ddemocrataidd dros gyfalaf. Gan bod gwahanol ffurfiau ar gyfalaf yn effeithio cymunedau mewn amrywiol ffyrdd mae angen strategaeth amlochrog i ennill rheolaeth ddemocrataidd gymunedol dros gyfalaf.

Cynigir strategaeth o'r fath ar gyfer y drefn economaidd bresennol a'r diwygiadau economaidd a llywodraethol sy'n bosib neu'n debygol dros y ddegawd nesaf. Drwy fynnu grym economaidd a sofraniaeth leol y galluogi'r ein pobl i greu cymunedau rhydd.

## GRYM GWLEIDYDDOL I GYMUNEDAU RHYDD.

### DADANSODDIAD.

**Perthnasedd.**

Mae trefn Llywodraethu Cymru'n amlwg yn berthnasol i'n brwydr gan fod y mwyafrif o benderfyniadau sy'n effeithio ar dynged yr iaith a chymunedau Cymru -addysg, tai, swyddi, cynllunio ac ati - yn rhai gwleidyddol. Rhaid i ni ystyried felly nid yn unig y polisiau ond pa fath o sefydliadau eu hunain a fydd y mwyaf tebygol i'w hamddiffyn. 'Rydym wedi dweud "Rhaid i bopeth newid" - hyn yn cynnwys trefn Llywodraeth yng Nghymru.

**Gwladwriaeth Doriaidd.**

Gwladwriaeth Doriaidd yw ein fframwaith llywodraethol yn y nawdegau. Bu mewn grym trwy'r wythdegau ac yn parhau trwy hanner cyntaf y nawdegau. Mae wedi dylanwadu cymaint ar ddiwylliant gwleidyddol Lloegr fel y byddai unrhyw newid llywodraeth yng nghanol y ddegawd yn debyg o barhau'n sylfaenol Doriaidd. Erbyn hyn, nid yw'r gwasanaeth sifil ddim yn gyfarwydd ag unrhyw drefn ond Ceidwadaeth a sefydlwyd rhan helaeth o sefydliadau llywodraethol canolog gan y Llywodraeth hon. Nid gormod yw dweud bellach fod ein sefydliadau llywodraethol canolog - Cymreig a Phrydeinig - yn <u>sefydliadau</u> sylfaenol Doriaidd.

**Awydd y Toriaid i ddifa democratiaeth.**

Mae natur Toriaidd y sefydliadau'n berthnasol oherwydd awydd radicalaidd y Toriaid i danseilio democratiaeth leol a thynnu i ffwrdd o gymunedau lleol y gallu a'r grym i reoli eu dyfodol eu hunain. Gan eu bod yn gwrthwynebu'r holl syniad o "gymuned", mae'r Toriaid yn tanseilio bob trefn llywodraethol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau, ac mae hyn ag oblygiadau amlwg i barhad cymunedau a'u diwylliant.

**Radicaliaeth wrth-ddemocrataidd y Toriaid.**

Daeth Llywodraeth Geidwadol Mrs Thatcher fel y llywodraeth gyntaf ers 1945 nad oedd yn fodlon ar ddal grym, ond a oedd am ddefnyddio'r grym i weddnewid cymdeithas. Talwn deyrnged iddynt am feddu ar weledigaeth - yn anffodus, nid oes lle yn y weledigaeth honno i fywyd cymunedol Cymraeg. Maent am ddinistrio democratiaeth leol mewn 2 ffordd:-

1. Nid ydynt wir yn credu mewn democratiaeth etholiadol na chynrychioladol ar lefel cymunedol. Credant mai'r farchnadle yw gwir grud democratiaeth leol - fod unigolion yn gallu gwneud penderfyniadau a dewisiadau real trwy eu gallu pwrcasu. Mae hyn yn ymestyn o nwyddau defnyddwyr i wasanaethau ac ymlaen i ysgolion, iechyd, prynu tai ac ati. Credant fod Sefydliadau'n fwy tebygol o ymateb i bwysau elw a cholled nac i etholiadau. Credant fod hyn yn rhoi mwy o ryddid i unigolion na phleidleisiau mewn etholiad. Gwir agenda'r Toriaid yw yn gyntaf sbaddu ac wedyn dileu pob sefydliad democrataidd leol, a phreifateiddio eu holl wasanaethau fel fod y Farchnad yn rheoli. Gellid dadlau fod gwleidyddiaeth y farchnad yn rhoi

rhyddid unigolyddol, ond mae'n gwbl groes i ryddid cymunedol. Mae'n tanseilio'n llwyr y rhyddid i gymunedau ddod ynghyd a phenderfynu trwy sefydliadau cymunedol democrataidd sut ddyfodol sydd i fod er budd yr holl gymuned - pa fath o gartrefi y maent eu hangen, pa fath o addysg, pa statws i'r iaith, pa fath o economi fel y bydd y gymuned (ac felly ei diwylliant) yn parhau.

2. Mae awydd gan y Toriaid i weddnewid Cymru yn ogystal a Lloegr ond ni allent fyth ennill grym mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Felly, dyma reswm ychwanegol dros ddileu sefydliadau democrataidd yn y gymuned - yn eu lle, llenwir y bwlch rhwng llywodraeth ganol ac unigolyn yn y farchnad trwy blethora o cwangos canolog newydd i reoli pob rhan o fywyd a hybu trawsnewidiad cymdeithasol a buddiannau'r farchnad. Llenwir y cwangos gyda Thoriaid a phobl na wnaiff wrthwybebu'r Toriaid yn agored, a chyda llawer o fyd diwydiant preifat. Mae'n amlwg fod y cwangos yn cynrychioli buddiannau'r Llywodraeth a'r farchnad ac na fyddant byth yn crynhoi pwysau cyhoeddus felly ar y llywodraeth i weithredu yn gadarn dros yr iaith a chymunedau Cymru. Maent yn sefydliadau sylfaenol Doriaidd.

**Preifateiddio.**

Mae'r cwangos yn ddull o baratoi ar gyfer preifateiddio e.e. Awdurdod Dwr yn troi'n Fwrdd Dwr preifat. Mae'r cwangos mor amherthnasol ac amhersonol fel bod neb yn gweld eu heisiau wrth iddynt ddiflannu i'r sector breifat. Yn y sector breifat neu'r sector gyhoeddus maent yn rheoli ar ran y Toriaid. Sefydlwyd llawer yn fwriadol er mwyn hybu preifateiddio e.e. Cyngor ariannu ysgolion sydd wedi tynnu allan o reolaeth ddemocrataidd gymunedol. A yw'n amhosibl y byddai cwango fel y Bwrdd Iaith yng nghyflawnder amser yn symud o'r sector gyhoeddus i'r sector breifat fel Ymddiredolaeth Breifat?

**Gwrthdrawiad.**

Dywed Cymdeithas yr Iaith "Rhaid i bopeth newid". Ategir hyn gan y Toriaid - ond yr ydym yn tynnu'n groes. Mae gwrthdrawiad rhwng y math o sefydliadau llywodraethol y mae eu hangen ar gymunedau rhydd a'r hyn sydd ei angen ar y farchnad rydd. Rhaid i bobl Cymru benderfynu.

**Toriaid Cymraeg.**

Gall llawer o Gymry Cymraeg gwladgar hybu cynllwyn y Toriaid yn anymwybodol trwy ymdiried o hyd yn y sector breifat a gwirfoddol yn lle mynnu gweithredu trwy sefydliadau democrataidd lleol er gwaethaf eu holl wendidau.

**GWELEDIGAETH.**

Yn syml ac yn sylfaenol, mae angen y math o sefydliadau llywodraethol i alluogi pobl mewn cymuned leol i gydweithio i sicrhau dyfodol i'w cymuned. Mae angen cychwyn gyda'r safbwynt bod y grym cynradd yn y gymuned leol a'u bod yn diprwyo i fyny at sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol y grym i weithredu ar eu ran yn y gwasanaethau hynny y gellir ei trefnu ar lefel ehangach. Dylai sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol a sefydliadau mewn meysydd fel addysg, tai a iechyd fod

yno i wasanaethu cymunedau a chydweithio mewn ysbryd o bartneriaeth. Nid oes unrhyw le yn y strwythyr hwn i'r farchnad na chwangos enwebiedig gymryd penderfyniadau sylfaenol am ddyfodol ein cymunedau lleol. Yn bendant, nid oes lle i'r arch-gwango annemocrataidd hwnnw - Y Swyddfa Gymreig. Bydd hefyd pob cydwladoli ar ein sefydliadau llywodraethol o gymorth i Gymru a'u cymunedau dorri allan o "Straightjacket" Prydeindod.

**POLISIAU.**

Dyma'r tro cyntaf i ni gynnwys adran yn y Maniffesto am drefn llywodraeth yng Nghymru - ond eisoes mae nifer o drywyddau polisi ar gyfer y nawdegau'n amlwg a byddwn yn datblygu'r rhain yn gyson trwy'r ddegawd.

**1. Llywodraeth Leol.**

Gwrthwynebwn gynllwyn y Toriaid i danseilio nid yn unig grym awdurdodau lleol ond hefyd eu hygrededd fel bod neb yn gweld eu heisiau pan ddiflanant. Dyma'r unig sefydliadau o ddemocratiaeth real sydd gyda ni. O dan drefn llywodraeth leol gall carfan neu gymuned wrthwynebu datblygiad o bwys fel cau ysgol neu godi stad o dai a chael gwir ddylanwad yn siambr y Cyngor. Mae rhyddid cymunedol o'r fath yn amhosibl gyda chwangos a chorfforaethau preifat lle na lunir y penderfyniadau yn y gymuned leol nac er mwyn y gymuned leol. Ymgyrchwn i sicrhau'r grym mwyaf posibl i sefydliadau newydd o ddemocratiaeth leol yng Nghymru. Pwyswn hefyd ar Gynghorau Lleol i wneud gwir safiad yn erbyn y Llywodraeth, y cwangos, a chorfforaethau preifat fel bod y gymuned leol yn ymddiried ynddynt. Gwelwn fod potensial llywodraeth leol yn llawer fwy na'i realiti presennol a'n nod felly fydd ceisio strwythurau i ddemocrateiddio llywodraeth leol yn hytrach na'i hamddiffyn fel y mae.

**2. Ymgyrch yn erbyn cwangos.**

Cyhoeddwn mai trwy gyfrwng y cwangos y mae'r Toriaid yn rheoli Cymru a'u bod yn dargedi addas ar gyfer ein hymgyrchu. Mynnwn fod cwangos naill ai'n cael eu dileu a throsglwyddo'u grym yn ol i sefydliadau democrataidd neu - lle mae angen awdurdod cyhoeddus i sector arbennig - eu bod yn cael eu democrateiddio. Dyma oedd pwysigrwydd y Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg, ei fod yn fforwm cynrychioladol o'r byd addysg. Dylai unrhyw awdurdod cyhoeddus ym meysydd fel iechyd, datblygu diwydiannol fod yn gynrychioladol yn yr un modd.

**3. Gwrthwynebu Preifateiddio.**

Gwrthwynebwn pob symudiad at symud penderfyniadau o ddemocratiaeth gymunedol i'r farchnad e.e. mae tynnu ysgolion o reolaeth gymunedol yn ddatblygiad drwg per se, pwy bynnag yw'r llywodraethwyr preifat.

**4. Hunan Reolaeth i Gymru.**

Wedi 30 mlynedd, mae Cymdeithas yr Iaith yn awr yn galw am hunan reolaeth i Gymru. Nid ydym wedi credu mai cam cyntaf yw ennill senedd i Gymru a gweithredu newidiadau trwy'r senedd honno. Yn hytrach, cychwynasom gydag ymgyrchoedd penodol mewn meysydd arbennig. Erbyn hyn hoffem weld senedd Gymreig, ond fel uchafbwynt i strwythyr o awdurdodau cymunedol rhydd yng Nghymru. Er mwyn sicrhau sofraniaeth y gymuned leol gall ail siambr y Senedd Gymreig, er enghraifft, fod yn gynrychioladol o'r awdurdodau cymunedol a charfannau eraill o fywyd cyhoeddus Cymru.

**5. Cymru yn y byd.**

Rhaid i Gymru a'i diwylliant gymryd ei lle ymhlith cenhedloedd datblygol y drefn byd newydd gyda llais gwleidyddol llawn mewn sefydliadau cydwladol. Bydd Cymdeithas yr Iaith yn cydweithio'n fwy gyda mudiadau mewn gwledydd eraill.

**CASGLIAD.**

Gwynebwn berygl a grymoedd enfawr. Mae'r triawd o lywodraeth ganolog goriaidd + cwangos toriaidd + chorfforaethau preifat yn ymylu ar dotalitariaeth ac yn gwbl elyniaethus i anghenion y Gymraeg a chymunedau Cymru. Nid dyna yw eu consyrn. Gwaith Cymdeithas yr Iaith yw fod yn rhan o'r ymgrynhoi o rymoedd democrataidd a chymunedol yng Nghymru i'w gwrthwynebu a'u gwrthweithio.

## TAI A CHYNLLUNIO MEWN CYMUNED RYDD.

### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Sofraniaeth y gymuned leol yw'r sylfaen i'r datblygiadau gwleidyddol ar ddechrau'r nawdegau ym mholisiau'r Gymdeithas ym maes tai a chynllunio. Yn wir y newid pwysicaf a ddigwyddodd yn ystod y degawd diwethaf yn y maes yma yw'r sylweddoliad o'r angen i roi proffil llawer iawn uwch i anghenion y gymuned a'r modd y mae, ac y gall, y gyfundrefn cynllunio ganiatau datblygiadau sydd yn niweidiol i'r gymuned leol ac i'r iaith Gymraeg neu y gall ymateb trwy geisio darganfod anghenion y gymuned leol a rhoi blaenoriaeth i'r gymuned honno. I raddau helaeth mae'r diffygion ym maes tai a chynllunio yn deillio o ddiffyg blaengaredd yn ogystal a'r methiant i sylweddoli sut y mae osgoi gweld y Gymraeg yn nghyd-destun cynllunio yn ergyd yn erbyn y gymuned leol ac yn erbyn y Gymraeg.

Trwy gydol y ddegawd diwethaf bu cynnydd yn y sylw a'r statws a roddwyd i faes tai a chynllunio, ac am gyfnodau bu'r ymgyrchoedd yn y maes yn cael prif sylw aelodaeth y Gymdeithas yn ganolog ac yn rhanbarthol. Erbyn hyn gwelir yr angen i gael adran ar wahan yn y Maniffesto i ddelio yn benodol a'r maes.

Yn yr adran ar dai ym Maniffesto 1982 cyfeirir at yr angen i
sicrhau y bydd dyfodol yr iaith yn flaenoriaeth o'r pwys mwyaf ym maes cynllunio lleol a pholisiau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan symud ymlaen am yr angen i

a) atal trai yr iaith;

b) cadw a chadarnhau yr iaith yn ei chynefin;

c) ad-ennill y tir a gollwyd.

Erbyn hyn sonnir yn fwy penodol am eiddo a sylfeini economaidd a diwylliannol yr iaith Gymraeg gyda'i gilydd ac mae'r pwyslais fwyfwy ar y gymuned leol fel y man pwysicaf yn y strategaeth i sicrhau dyfodol i'r iaith.

Ni lwyddwyd i gyrraedd y nod o gael awdurdodau cynllunio i roi blaenoriaeth i anghenion yr iaith wrth ddatblygu cynlluniau fframwaith, cynlluniau dosbarth na chynlluniau lleol ond llwyddwyd i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffactor i'w hystyried ym maes cynllunio a bod effaith datblygiadau cynllunio ar iaith, diwylliant a chymuned yn rhan annatod o unrhyw gynllunio a ddigwydd ar gyfer y dyfodol. Llwyddwyd i raddau helaeth i gael cydnabyddiaeth bod a wnelo cynllunio mwy nag ymwneud a defnydd tir yn unig. Nid felly oedd y sefyllfa ar ddechrau'r wythdegau. Ar ol cyfnod o ymgyrchu cyfansoddiadol yn ogystal ag anghyfansoddiadol; gan gynnwys cynnal trafodaethau gyda'r Swyddfa Gymreig a nifer o awdurdodau cynllunio, cynnal cynhadleddau cynllunio yng nghanol y degawd ac ymgyrchu'n benodol yn erbyn datblygiadau a oedd yn debyg o danseilio Cymreictod ardaloedd Cymreig megis Morfa Bychan, gwallgofrwydd y marinas, a Llanrhaedr Dyffryn Clwyd; gwelwyd cydnabyddiaeth swyddogol gan y Swyddfa Gymreig yn 1986, y gellir ystyried rhoi sylw i effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Gwelwyd

felly newid sylweddol yng nghanfyddiad nifer o Awdurdodau Cynllunio o le'r Gymraeg o fewn cyd-destun cynllunio defnydd tir.

Ym maes tai cychwynnodd y frwydr i ddiogelu Cymreictod y cymunedau Cymraeg eu iaith ganolbwyntio ar sefyllfa tai yn yr ardaloedd gwledig ac ymgyrchoedd yn tynnu sylw at effaith dinistriol tai haf ar gymuned a iaith. Er hynny, yn fwy fwy gwelwyd y problemau oedd yn deillio o dai haf mewn cyd-destun ehangach o lawer - nid y tai haf fel y cyfryw oedd y broblem ond methiant cymunedau i gael rheolaeth dros y stoc tai, ac yn ychwanegol i hynny methiant y gymuned leol i gystadlu o fewn cyfundrefn masnachu a ddatblygodd yn fwy-fwy trwy hyrwyddo'r pryniant a gwerthiant o dai fel eiddo ar gyfer creu cyfalaf yn hytrach na fel angen cymdeithasol i'w diwallu. Gwelwyd cynydd yn ystod yr wythdegau yn yr ymgais gan nifer o gymdeithasau adeiladu i agor allan y farchnad dai yng Nghymru trwy ecsploitio'r gwahaniaethau cyfoeth rhwng rhanbarthau cyfoethog De-Orllewin Lloegr a thlodi gymharol Cymru - trefol yn ogystal a gwledig. Nid datblygiad damweiniol mohoni ond strategaeth fwriadol a arweiniodd at chwyddiant aruthrol ym mhris tai rhwng 1986 ac 1990 a chynydd sylweddol iawn yn yr hapfasnachu. Datblygwyd ymgyrch "Nid Yw Cymru Ar Werth" nid yn unig mewn ymateb i hyn ond hefyd mewn ymateb i'r sylweddoliad cynnyddol ymysg nifer o gynghorau yng Nghymru o'r argyfwng tai a oedd yn datblygu yn sgil y gorfodaeth i werthu tai cyngor ochr yn ochr a'r cynydd yn yr hap-fasnachu, chwyddiant pris tai a'r parhad y sefyllfa o gyflogau isel a oedd yn golygu nad oedd bobl leol yn medru cystadlu am dai yn y farchnad Prydain-eang. Arweiniodd yr argyfwng tai at y sylweddoliad am angen i gael ymateb mwy cynhwysfawr na Statws Cynllunio i'r Iaith Gymraeg a chyllid digonol i gynghorau i brynu tai ac eiddo - roedd rhaid ymladd yn erbyn lli'r farchnad rydd gan fynnu ymyrraeth yn y farchnad dai ac eiddo a rheolaeth dros hap-fasnachu - roedd angen Deddf Eiddo.

Yn wir gwelwyd cefnogaeth sylweddol ymysg y cyhoedd a chyrhaeddodd hyn benllanw gyda charchariad Alun Llwyd a Branwen Nicholas a'r gyfres o raliau a gynhaliwyd pryd y gwelwyd miloedd o bobl yn cerdded y strydoedd i ddangos cefnogaeth i'r alwad am Ddeddf Eiddo i ddiogelu seiliau tiriogaethol cymunedau Cymreig. Yn eironig iawn methinat polisiau economaidd y llywodraeth a'r dirwasgaid a fu'r achubiaeth i nifer o ardaloedd Cymreig.

Gwelwyd un symudiad peryglus arall tua diwedd y degawd - sef edrych o'r newydd ar reolaeth ar ddatblygu tai mewn ardaloedd gwledig. Bu gweinidogion y Llywodraeth yn pwyso'n gryf i ryddhau mwy o dir gwyrdd ar gyfer datblygiadau tai ac mewn rhannau o Loegr gwelwyd Awdurdodau Cynllunio o dan reolaeth y Toriaid yn caniatau polisi a oedd yn anwybyddu dadleuon amgylcheddol y gorffennol yn erbyn caniatau datblygiadau tai y tu allan i ffiniau trefi a phentrefi.

Ar droad y degawd ac yn ystod 1991/92 gwelwyd cynnydd sylweddol yn y gefnogaeth i ymgyrch Cymdeithas yr Iaith dros geisio sicrhau mwy o reolaeth dros y farchnad tai ac eiddo. Gwelwyd yn

fwy fwy sut yr oedd y llywodraeth yn camu ymlaen i breifateiddio'r farchnad tai yn gyfan gwbl. Rhan pwysig o'r strategaeth yma oedd i leihau grym y degau o Gymdeithasau tai a gododd yn sgil methiant y farchnad tai i ddarparu tai ar rent i bobl leol. Ar y cychwyn roedd rôl y Cymdeithasau Tai o brynu ac adnewyddu tai er mwyn eu gosod ar rhent, yn llenwi bwlch pwysig yn sgil gwerthiant tai cyngor. Gan fod y Cymdeithasau Tai i raddau helaeth wedi tyfu allan o gymunedau ac yn ceisio gweithredu trwy gytundeb cymunedau roeddynt yn gwneud gwaith amhrisiadwy. Er hynny maent yn derbyn eu cyllid trwy'r Swyddfa Gymreig ac ar droad y nawdegau gwelir sut y gall y rheolaeth ariannol yma arwain at newid yn y dull o weithredu. Bu cynnydd yn y pwysau o gyfeiriad y Swyddfa Gymreig ar i Gymdeithasau Tai adeiladu tai o'r newydd gan arwain at gynnydd yn y stoc tai a oedd ar gael ar gyfer y farchnad rydd, a hyn yn ei dro yn arwain at beryglu sylfaen Cymreictod nifer fawr o gymunedau gwledig Cymreig. Erbyn hyn bwriada'r Swyddfa Gymreig mynd un cam ymhellach gan greu gwedd corfforaethol i'r gyfundrefn Cymdeithasau Tai yn seiliedig ar y cynllun i sicrhau nifer cyfyngedig o Gymdeithasau Tai mawr gyda mwy o bwyslais ar adeiladu stadau tai gyda dros 50 neu 100 o dai dan oruchwyliaeth un o gwangos lled-newydd y Swyddfa Gymreig - Tai Cymru. Yn yr un modd gwelir datblygwyr tai yn ceisio manteisio ar y sefyllfa o ddiffyg tai i brynwyr tro cyntaf trwy gynnwys cynlluniau a oedd yn pwysleisio mae ymateb i anghenion prynwyr tro cyntaf yr oeddynt yn ei wneud. Yn aml nid oedd y cyfeiriad at brynwyr tro cyntaf yn cynnwys manylu ar gost yr unedau a fwriadwyd ac yn yr amgylchiadau lle rhoddwyd pris cyfeiriwyd at gost tai a oedd ymhell y tu hwnt i'r hyn a oedd o fewn cyrraedd pobl Cymru £75,000 - £85,000 yn aml iawn. Gyda holl bwyslais y llywodraeth presennol ar breifateiddio'r sector dai yn gyfangwbl rhagwelir ymgyrchu caled iawn yn y maes yma yn y degawd i ddod.

**POLISIAU**

Gellir ail-adrodd y polisiau a nodwyd ym Maniffesto 1982 fel man cychwyn. Er y gwelwyd symudiad i gyfeiriad ymateb i'n galwadau ac er yr enillwyd lawer o frwydrau lleol yn erbyn datblygiadau dinistriol i'r Gymraeg, parhau y mae ein ymgyrchu i gael statws cynllunio cyflawn i'r iaith Gymraeg. Felly ym maes cynllunio rydym yn galw -

a) Am "Statws Cynllunio Cyflawn" i'r iaith Gymraeg gyda'r Swyddfa Gymreig yn comisynu adroddiad ar fyrder ar sefyllfa'r iaith ac yn cynnig argymhellion a fydd yn sail pwysig i ddatblygu'r gyfres nesaf o Gynlluniau Fframwaith a Chynlluniau Dosbarth. Dylai'r adroddiad gynnwys gorfodaeth ar i bob awdurdod cynllunio - cenedlaethol yn ogystal a lleol, gynnwys adran penodol yn cyfeirio at anghenion yr iaith Gymraeg a'r ymateb i hyn.
Dylid sicrhau bod yr adroddiad yma yn cael ei ystyried fel un adroddiad mewn cyfres o adroddiadau yn mesur y graddau y mae'r argymhellion a nodir yn dwyn ffrwyth a bod adolygiadau rheolaidd o'r adroddiad yn anhepgorol.

b) Ar bob awdurdod ac asiantaeth sydd yn dylanwadu ar ddatblygiadau ym maes tai a chynllunio - gan

ym maes tai a chynllunio - gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru Wledig, ac Awdurdod Tir Cymru, - integreiddio ystyriaethau yn ymwneud a'r iaith Gymraeg i fewn i'w Cynlluniau Datblygu gan sicrhau statws cynllunio cyflawn i'r iaith Gymraeg. Hyd yn oed os na cheir arweiniad clir o dy'r Swyddfa Gymreig dyma'r lleiaf y gallwn ddisgwyl - ac ni allwn golli amser oherwydd oedi posibl o gyfeiriad y Swyddfa Gymreig.

c) Ar bob Awdurdod Cynllunio i ymgorffori athroniaeth statws cynllunio i'r iaith gan sicrhau nid yn unig adroddiad ar sefyllfa'r iaith Gymraeg ond "Cynlluniau Iaith" fel rhan o'r strategaeth cynllunio ar gyfer y dyfodol - cynlluniau a fydd yn ceisio symud i gyfeiriad gweithredu'n gadarnhaol o blaid yr iaith Gymraeg trwy ceisio rhagweld anghenion ac ymateb iddynt rhag blaen. Yn y tymor byr galwn am Adroddiadau Pwnc ar yr iaith Gymraeg a hynny yn ddi-oed.

ch) Normaleiddio cynllunio ieithyddol ar lefel cymunedol gan sicrhau Cynlluniau Lleol integredig a fydd yn ymgorffori yn uniongyrchol anghenion yr iaith Gymraeg. Yn y sefyllfa sydd ohoni nid oes rheidrwydd i Gynghorau Cymuned gyflawni adroddiadau cynllunio. Ar y llaw arall nid oes dim yn eu rhwystro rhag gwneud hynny.

Llwyddiant yr 80'au oedd cael y Swyddfa Gymreig i gydnabod yr egwyddor o Statws Cynllunio i'r iaith Gymraeg. Nôd y 90'au yw sicrhau y gweithredir ar hyn ar bob lefel.

Ymgorfforir y galwadau yma o fewn yr alwad am Ddeddf Eiddo sydd a'r nôd driphlyg o -

(i) ddiwallu anghenion tai pobl Cymru;

(ii) ddiogelu cymunedau Cymru a'r iaith Gymraeg - sydd yn ei hanfod yn cysylltu gyda pholisiau economaidd a chymdeithasol;

(iii) ddiogelu'r amgylchedd.

Ymhellach mae'r ymgyrch Ddeddf Eiddo yn seiliedig ar

(i) ystyried tai ac eiddo fel angen yn hytrach nag fel nwydd cymdeithasol;
(ii) sicrhau mynediad i bobl leol i'r stoc bresennol o dai ac eiddo;
(iii) ymyrraeth yn y farchnad tai i sicrhau bod prisau tai ac eiddo yn adlewyrch'r farchnad leol.
Er mwyn sicrhau hyn bydd angen y canlynol -

(i) Ymchwil a strategaeth i anghenion tai - ar raddfa llawer iawn mwy trylwyr na'r gorffennol gyda adnoddau digonol i Awdurdodau fel y gallant gyflawni'r nôd yma yn effeithiol.

(ii) Sicrhau stoc o dai ar rhent i bobl leol ac i ymestyn yr egwyddor i gynnwys busnesau bach a ffermydd fel y gall pobl ifanc cael y cyfle i ddatblygu busnesau heb orfod benthyg arian mawr.

(iii) Datblygu cynllun o roi cymorth ariannol i brynwyr tro cyntaf e.e trwy gynlluniau rhan-berchnogaeth, gan unwaith eto sicrhau nad oes rhaid mynd i ddyled mawr er mwyn sicrhau cartref.

(iv) Blaenoriaeth i bobl leol yn y farchnad tai gan sicrhau bod tai ac eiddo yn cael eu cynnig i bobl sydd yn byw yn y gymuned yn gyntaf cyn mynd allan i'r farchnad agored.

(v) Datblygu cyfundrefn cynllunio sydd yn gwasanaethu'r gymuned leol ac felly trwy hynny sicrhau statws cynllunio cyflawn i'r iaith Gymraeg.

(vi) Ail-asesu caniatad cynllunio a roddwyd dros 5 mlynedd yn ôl ac ail-edrych ar reolau cynllunio sydd yn caniatau i hap-fasnachwyr gam-ddefnyddio'r drefn sydd ohoni.

## Y DYFODOL

Mae holl gyfeiriad polisiau presennol y Gymdeithas yn dangos yn glir ein bwriad i ddylanwadu yn fwy uniongyrchol ar y ffactorau sydd yn arwain at newid o fewn ein cymunedau. Sylfaen yr athroniaeth yma yw'r angen i wyrdroi'r drefn cynllunio gan bwysleisio rol holl-bwysig y Cynghorau Cymuned. I'r perwyl hynny gofynnir i gelloedd fynd ati yn ddi-ymdroi i baratoi cynlluniau iaith yn seiliedig ar Adroddiadau Cymuned sydd yn edrych ar y sefyllfa ieithyddol ar lefel cymuned. Yn y tymor hir gwelir yr angen i sicrhau bod Cynlluniau Dosbarth, Cynlluniau Fframwaith Strategol, boed ar lefel Sir neu hyd yn oed ar lefel Cymru gyfan, yn seiliedig ar, ac yn datblygu o'r, Cynlluniau Cymuned. Gofynna hyn am statws a chyllideb a fydd yn gosod y Cynghorau Cymuned fel y prif haen gynllunio yng Nghymru.

Mae egwyddorion y galwad am Ddeddf Eiddo hefyd yn mynd i'r cyfeiriad yma. Yn bwysicach na hynny mae'r alwad am Ddeddf Eiddo yn galw am ymyrraeth sylweddol yn y farchnad rydd fel bod y farchnad rydd yn gwasanaethu cymunedau yn hytrach nag yn eu gormesu. Heb ymyrraeth yn, a rheolaeth dros, y farchnad bydd hap-fasnachu yn cynyddu a bydd sefydlogrwydd cymunedol yn anodd os nad yn amhosib.



## RHYDDID I'R IFANC

"Pobl ifanc yw dyfodol yr iaith" - mae hyd yn oed ein gwrthwynebwyr yn cytuno a hyn. Ond, yn lle siarad yn sentimental, mae Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu dros rym real i bobl ifanc - a hynny er mwyn eu rhyddhau i adeiladu Cymru'r dyfodol. Ac eto, wrth ystyried lle pobl ifainc yn y frwydr dros y Gymraeg, y mae anghysondeb cwbl sylfaenol:

a) Dyma'r garfan lleiaf pwerus yn wleidyddol. Nid oes gan bobl ifanc unrhyw gynrychiolaeth gwleidyddol na hyd yn oed unrhyw wir ddylanwad ar y system addysg y maent yn rhan ohoni trwy orfodaeth. Nid oes grym economaidd gan bobl ifanc - yn wir cant eu trin fel adnoddau rhad i'w hecsbloitio - ac ni lunir polisiau ar gyfer eu hanghenion arbennig mewn meysydd fel tai. Dirmygir diwylliant ieuenctid neu, ar y gorau, caiff ieuenctid eu trin yn nawddoglyd fel pobl nad oes ganddynt ddiddordeb mewn dim heblaw am gerddoriaeth ysgafn a chyfleusterau hamdden. Mewn gair nid oes gan Gymry ifanc rym tu fewn i'r sefydliadau presennol i ddylanwadu ar y dyfodol.

OND

b)Hon yw'r garfan fwyaf allweddol i ddyfodol y Gymraeg - yn wir y genhedlaeth olaf gyda'r cyfle ymarferol i achub yr iaith.

Yr anghysondeb hwn rhwng cenhadaeth hanesyddol Cymry ifanc ar y naill law a'u stad ddi-rym ar y llaw arall yw un o broblemau mwyaf hanfodol y mae'n rhaid eu datrys os yw iaith a chymunedau Cymru i fyw.

Yn lle bod yn rym nerthol i adeiladu Cymru'r dyfodol, gadewir llawer o'n pobl ifanc heb waith na chartrefi na chyfle ymarferol i aros na hyd yn oed awydd i aros gan nad ydynt yn teimlo fod ganddynt lais yn y presennol na rhan yn y dyfodol. Mae'r system addysg yn eu gadael heb wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned na sut y gallant ddylanwadu.

Y canlyniad yw ALLFUDIAD enfawr o bobl ifanc o'u cymunedau - gw. adroddiad arbennig y Gymdeithas. Ers cyhoeddi'n maniffesto diwethaf, cynyddwyd ein hymwybyddiaeth fod y broblem hon yr un mor ddifrifol a phroblem y mewnlifiad - yn wir yr ochr arall i'r geiniog - a bod llawer o gymunedau Cymreig yn gwaedu i farwolaeth o ganlyniad.

Mae Cymdeithas yr Iaith mewn sefyllfa dda i daclo'r broblem hon. Mae cyfran helaeth o'n haelodau yn eu harddegau ac wedi profi drostynt eu hunain y rhwystredigaeth o weld fod yr awdurdodau gwleidyddol, ac yn yr ysgol, yn amharod i wrando ar lais pobl ifanc. Tystia llawer eu bod wedi dysgu llawer mwy am yr hyn sy'n digwydd yn eu cymuned trwy brofiad gweithredu gyda Chymdeithas yr Iaith.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi arwain symudiad dan faner "Rhyddid i'r Ifanc" i geisio creu'r hyder mewn pobl ifanc i sylweddoli potensial eu rhyddid a'u harfogi gyda'r grym ymarferol a'r ewyllys i lunio dyfodol i'r iaith ac i gymuedau Cymru. Yn wir dyma un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous ers cyhoeddi'r maniffesto diwethaf. Mae wedi codi yn naturiol o brofiad personol ein haelodau a'u hymgyrchu gwleidyddol e.e.

1 - o'r ymgyrch i sicrhau addysg berthnasol

2 - o'r ymgyrch dros adran rhaglenni ieuenctid yn y BBC

3 - o brofiad ein haelodau ifanc yn cael eu trin yn nawddoglyd mewn dirprwyaethau gan gynghorwyr a phenaethiaid darlledu

4 - o ymdrech Cymry ifanc i gynnal diwylliant roc bywiog heb y math o nawdd mae carfannau eraill yn eu derbyn ac

5 o brofiad digalon miloedd o Gymry ifanc sy'n methu aros yn eu cymunedau o ddiffyg cartrefi a gwaith.

Ar ddechrau degawd newydd cyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith SIARTER 91 - RHYDDID I'R IFANC sef set o bolisiau i roi grym real i bobl ifanc fel carfan arbennig mewn cymdeithas. Cafwyd llawer o gefnogaeth i'r Siarter ac fe'i cyflwynwyd i'r Swyddfa Gymreig gyda'r alwad am ariannu pwyllgorau ieuenctid ym mhob sir ac am adroddiad cenedlaethol ar broblem enbyd y mewnlifiad. Ymatebodd y Swyddfa Gymreig yn llawn dychymyg - trwy sefydlu cwango arall, y "Wales Youth Agency" !

Dyma frwydr fawr ar gyfer y nawdegau - brwydr mae Cymdeithas yr Iaith yn gymwys iawn i'w hymladd. Mae'n frwydr 'draws-gwricwlar' sy'n cyfuno gwahanol ymgyrchoedd, ac mae'n frwydr sy'n gyson ag ysbryd herfeiddiol y Gymdeithas. Y frwydr fawr fydd i geisio sicrhau llais a dylanwad a grym i bobl ifanc, a swyddogaeth bendant wrth adeiladu Cymru'r dyfodol, gan geisio atal yr allfudiad enfawr o bobl ifanc o'n gwlad. Fe aiff y frwydr i bob rhan o'r wlad gyda'r alwad i sefydlu Fforwm Ieuenctid ym mhob sir.

**EIN POLISIAU**

Crynhowyd ein gofynion yn Siarter '91 - a dyma fydd agenda'r nawdegau. Yr ydym yn galw am:

**Llais Gwleidyddol i Bobl Ifanc**

Galwn am sefydlu <u>PWYLLGOR IEUENCTID</u> ym mhob sir - neu ddosbarth newydd. Ni fydd maes trafod y pwyllgorau'n cael eu cyfyngu i bynciau ymylol fel cyfleusterau hamdden. Dylent ddatblygu'n wir lais i bobl ifanc ar faterion o bwys i'r gymuned leol e.e. pob cais cynllunio o bwys.

**Rhyddid yn y Drefn Addysg**

Mae gan bobl ifanc hawl i dderbyn addysg berthnasol sy'n ymdrin a phynciau megis diweithdra, allfudiad pobl ifanc, mewnfudiad a newid iaith, gweithrediad y farchnad dai a'r system gynllunio etc. Nod yr addysg hon fyddai hybu myfyrwyr ysgol i feddwl drostynt eu hunain, i ddatblygu sgiliau ymchwilio, casglu a dadansoddi gwybodaeth, ffurfio a lleisio barn, dysgu dylanwadu ar benderfyniadau. Er mwyn cyflawni'r nod, dylid annog cydweithio yn lle cystadlu, a dylai problemau'r gymuned gael sylw trawsgwricwlar yn y system addysg. Dylid annog dysgu trwy weithredu a gwelir rol cynghorau myfyrwyr ysgol yn hyn o beth. Dylid ffurfio Cyngor grymus ym mhob ysgol fel y gall myfyrwyr gael fforwm i ddylanwadu ar addysg ac i fagu cyfrifoldeb a chymryd cyd-benderfyniadau.

## Llais pobl ifanc yn y cyfryngau

Yn hytrach na bod gwybodusion y cyfryngau'n darparu rhaglenni i bobl ifanc heb gysylltiad uniongyrchol a'r gynulleidfa yr ydym yn galw am beirianwaith i sicrhau bod pobl ifanc yn cael llais a dylanwad ar gynnwys a natur rhaglenni a phapurau. Y mae cyfrifoldeb arbennig mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Galwn am sefydlu ADRAN RHAGLENNI IEUENCTID o fewn y BBC.

Byddai'r adrannau yma'n cadw cysylltiad cyson a'u gwrandawyr, ac yn trafod ystod eang o faterion o ddiddordeb i bobl ifanc ac yn ceisio'n ymarferol i ddenu cynulleidfa newydd. Gwelwn fod gan y cyfryngau gyfrifoldeb i fod yn atebol i'w chynulleidfa ifanc ac i gyflwyno'r Gymraeg mewn modd bywiog, modern, atyniadol.

## Mynnwn gartrefi i bobl ifanc

Rhaid i'r gymuned leol gael rhyddid i reoli'r farchnad dai leol, er mwyn sicrhau cartrefi i bobl leol. Er enghraifft, rhaid sicrhau tai ar rent, trwy ran-berchnogaeth, defnyddio rheolau cynllunio a thrwy'n cynigion am Ddeddf Eiddo. Dylid sylweddoli fod pobl ifanc yn garfan wan o fewn y farchnad. Rhaid cynllunio'n ofalus i sicrhau y gall cymunedau gadw'u pobl ifanc. Mae'r Toriaid yn cymryd yn ganiataol y dylai pobl ifanc fyw gyda'u rhieni nes y symudant o'u cymuned. Gwrthodwn hyn a gwrthodwn holl egwyddor y farchnad mai "buddsoddiadau" i'w prynu a'u gwerthu yw tai. Mewn ardal o incwm isel, collir felly gyfran helaeth o'r tai i bobl fwy cyfoethog o'r tu allan. Bydd y garfan wanaf o ran incwm - pobl ifanc, yn wannaf oll o ran eu gallu i gael eu cartrefi eu hunain.

## Mynnwn waith i bobl ifanc yn lleol

Rhaid creu cynlluniau newydd i sicrhau bod y math o waith ar gael i bobl ifanc a all eu cadw yn eu cymuned. Mae gan y system addysg rol allweddol i sicrhau hyn. Dylai pobl ifanc dderbyn hyfforddiant sy'n rhoi rhyddid a chyfrifoldeb iddynt, yn hytrach na'u hecsbloitio. Yn ol egwyddorion y farchnad, ni chaiff y mwyafrif o bobl ifanc y rhyddid o ddewis gweithio yn eu cymuned. Gan mai carfan wan ydynt, cant eu hecsbloitio o safbwynt cyflog ac amodau gwaith.

## Mynnwn ddiwylliant ieuenctid bywiog

Dylid sianelu nawdd cyhoeddus i hybu a chynnal diwylliant ieuenctid, gan ddargyfeirio cyllid o gyhoeddiadau academaidd a gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at grwpiau incwm uchel. Dylid sicrhau trefniadaeth fydd yn galluogi pobl ifanc i drefnu digwyddiadau a chyhoeddiadau eu hunain. Gwrthodwn syniad y farchnad fod pobl ifanc yn hapus i dderbyn yn hytrach na chreu eu diwylliant, ac y gallant symud at ganolfannau mawr i weld digwyddiadau byw. Cyfyngir nawdd cyhoeddus i ddiwylliant "safonol", yn nhyb y rhai sy'n rheoli.

## Casgliad

Efallai bod triniaeth pobl ifanc yn dangos yn gliriach nag mewn unrhyw faes arall y gwrthdrawiad gwerthoedd rhwng gwleidyddiaeth y gymuned rydd a gwleidyddiaeth y farchnad rydd. Gwel Cymdeithas yr Iaith bobl ifanc fel un o adnoddau pwysicaf pob cymuned tra bod y farchnad yn eu gweld fel carfan wan i'w hecsbloitio.

Mynnwn felly nid hawliau unigolyddol i Gymry ifanc, ond "hawliau cymunedol" i gael grym gyda'i gilydd i greu y dyfodol. Yn y frwydr hon yr ydym yn ceisio gweddnewid syniadau cenedlaethau am rol pobl ifanc mewn cymuned. Yr ydym yn anelu at newid diwylliant, nid ennill consesiynau bach.

Nid ydym yn ceisio'r math o optio allan unigolyddol a nodweddai ddyheadau ieuenctid yn y chwedegau, ond yn hytrach optio i mewn i'r frwydr dros ddyfodol ein cymunedau. Grymoedd eiddigeddus y farchnad sy'n eu cau allan.

Yn y frwydr fawr hon gall Cymru roi arweiniad i'r byd.



## CASGLIADAU'R MANIFFESTO

Gwelwn un llinell gyffredin yn rhedeg trwy'r maniffesto hwn i gyd - sef y gwrthdrawiad hanesyddol rhwng Gwleidyddiaeth y Farchnad Rydd a Gwleidyddiaeth y Gymuned Rydd. Dyma frwydr a fydd yn ymledu trwy'r byd gorllewinol yn niwedd yr ugeinfed ganrif fel y mae pobloedd yn cael eu dadrithio gan addewidion gwag a ffug ryddid y farchnad. Mae'r maniffesto hwn yn ymwneud a'r amlygiad Cymreig o'r frwydr hon, ac yn ymwneud a'r ffordd yr ydym yng Nghymru yn hybu'r frwydr hon ac yn diffinio Gwleidyddiaeth y Gymuned Rydd yn ein cyd-destun ni.

Yr ydym yn ymladd y frwydr hon yng Nghymru o reidrwydd, oherwydd nad yw'r farchnad yn cydnabod lle i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Dyma gasgliad anochel pob adran o'r maniffesto hwn.

Os pery y tueddiadau presennol, gan ganiatau rhwydd hynt i rymoedd y farchnad, bydd y Gymraeg wedi peidio a bod fel iaith gymunedol fyw yn gynnar yn y ganrif newydd. Bydd miloedd o unigolion yn parhau i allu siarad yr iaith ac yn wir fe ychwanegir at y nifer o siaradwyr newydd. Ond ni fydd unrhyw gymunedau naturiol Gymraeg ar ol. Cyfyngir y Gymraeg yn fwyfwy i rwydweithiau arbennig. Yn eironig iawn aiff sefydliadau Cymraeg fel yr Urdd, yr Eisteddfod ac S4C o nerth i nerth fel y bydd siaradwyr Cymraeg unigol yn chwilio'n ymwybodol am gyfle i arfer yr iaith yn dilyn dadfeiliad cymunedau Cymraeg naturiol. Bydd rhai carfannau o Gymry Cymraeg yn ymelwa ar y broses hon, ond llaweroedd yn cael eu dieithrio. Bydd rhyddid a hawliau unigolyddol i wneud defnydd o'r iaith, ond dim hawl ymarferol i fyw mewn cymuned Gymraeg, nac i gymunedau lunio eu dyfodol.

Bydd y Llywodraeth yn fodlon iawn ar ddatblygiadau o'r fath - gan longyfarch eu hun ar nifer y siaradwyr unigol Cymraeg, rhyw gefnogaeth ariannol i sefydliadau dof, a hawliau unigolyddol i arfer y Gymraeg mewn Deddf Iaith wan. Ni fydd Cymdeithas yr Iaith yn bodloni ar drefn o'r fath gan na fydd yn rhyddhau holl botensial yr iaith na rhyddid potensial y Cymry i fyw mewn cymuned a'i gilydd. Ymateb y Gymdeithas fydd ceisio sbarduno pawb sy'n credu yng ngwerthoedd cymuned, cydweithio, rhyddid a heddwch i ymuno gyda ni i greu trefn amgenach -

## RHYDDID CYMUNEDOL

Cyhoeddwyd gan

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Pen Roc
Rhodfa'r Mor,
Aberystwyth, Dyfed. (0970 624501)

## *Cymuned Rydd nid Marchnad Rydd*

# CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG